

# Datganiad y Polisi Trwyddedu

Deddf Trwyddedu 2003

2024

[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)

Cyngor **Sir Gâr**  
**Carmarthenshire**  
County Council



## Cynnwys

Rhagymadrodd .....	4
Cefndir .....	6
Yr Egwyddorion Sylfaenol .....	6
Amodau Trwyddedu .....	7
Amcanion Trwyddedu – Sylwadau Cyffredinol .....	8
Atal Troseddau ac Anhrefn .....	10
Diogelu'r Cyhoedd .....	13
Atal Niwsans Cyhoeddus .....	15
Amddiffyn Plant Rhag Niwed .....	17
Asesiadau Effaith Gronnol .....	21
Oriau Trwyddedu .....	26
Ffilmiau .....	27
Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu .....	28
Cerddoriaeth, Dawnsio a Theatr Fyw .....	29
Digwyddiadau Dros Dro Ar Raddfa Fach .....	30
Digwyddiadau Achlysurol Mwy o Faint .....	31
Y Broses Drwyddedu .....	32

Adolygu Trwyddedau .....	32
Datrys Anghydfodau .....	33
Gorfodi .....	36
Atodiad A .....	36
Atodiad B .....	38
Atodiad C .....	41
Atodiad D .....	41
Atodiad E .....	42
Atodiad F .....	45
Atodiad G .....	47
Atodiad H .....	47
Atodiad I .....	48
Atodiad J.....	49

# 1 RHAGYMDRODD

1.1 Datblygwyd y polisi hwn yn unol â Deddf Drwyddedu 2003 ('y Ddeddf'), y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r dogfennau hyn.

1.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf gyda golwg ar hybu'r pedwar Amcan Trwyddedu, sef:

- a) **Atal troseddau ac anhrefn**
- b) **Diogelu'r cyhoedd**
- c) **Atal niwsans cyhoeddus**
- d) **Diogelu plant rhag niwed**

Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod yr amcanion uchod cyn bwysiced â'i gilydd.

Ceir rhagor o fanylion yn adrannau 5-9 isod.

1.3 Lluniwyd y polisi hwn o ganlyniad i waith ymgynghori helaeth a oedd yn cynnwys y cyrff canlynol (ond heb ei gyfyngu iddynt): -

- a) Yr Heddlu
- b) Y Gwasanaeth Tân
- c) Awdurdodau Eraill sydd â Chyfrifoldeb
- d) Deiliaid Trwyddedau a'u cynrychiolwyr
- e) Deiliaid tystysgrifau safle clwb a'u cynrychiolwyr
- f) Busnesau lleol a'u cynrychiolwyr
- g) Trigolion lleol a'u cynrychiolwyr

Rhoddwyd ystyriaeth briodol i bob ymateb a dderbyniwyd.

1.4 Mae'r polisi hwn yn cyfeirio at bob un o'r gweithgareddau trwyddedadwy a nodwyd fel rhai sy'n dod o fewn darpariaethau'r Ddeddf, sef:-

- a) Adwerthu alcohol (gan gynnwys dros y Rhyngwyd neu drwy'r post)
- b) Cyflenwi alcohol i aelodau clybiau cofrestredig
- c) Cyflenwi bwyd poeth a/neu ddiod o unrhyw safle rhwng 11pm a 5am (lluniaeth yn hwyr y nos)
- d) Darparu '*adloniant wedi'i reoleiddio*' (yn unol â'r diffiniad yn atodlen 1, rhan 1, paragraff 2 o'r Ddeddf) i'r cyhoedd, i aelodau clwb neu gyda golwg ar elw. Mae hyn yn cynnwys y canlynol: -

- i) Perfformio drama
- ii) Dangos ffilm
- iii) Digwyddiad chwaraeon o dan do

- iv) Paffio neu reslo er adloniant
- v) Perfformio cerddoriaeth fyw
- vi) Chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio
- vii) Perfformio dawn

1.5 Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o eithriadau ac esemptiadau, sydd wedi'u diwygio a'u cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw, y Ddeddf Dadreoleiddio a gorchmynion deddfwriaethol eraill. Nid oes bwriad i fanylu ynghylch y newidiadau hyn yn y polisi hwn, ond maent yn cael eu hesbonio yng nghanllawiau'r Swyddfa Gartref dan adran 182 y Ddeddf. Dylai unrhyw un sy'n ystyried darparu adloniant roi ystyriaeth ofalus iddynt. I gael rhagor o gyngor, cyngorir ymgeiswyr i gysylltu â'r Adain Drwyddedu.

## 1.6 Mathau o Ganiatâd

Mae 4 math o ganiatâd:

- a) **Trwydded Safle** – trwydded a roddir i unrhyw safle, sy'n caniatáu ei ddefnyddio ar gyfer un neu ragor o weithgareddau trwyddedadwy.
- b) **Trwydded Bersonol** – trwydded a roddir i unigolyn gan yr Awdurdod Trwyddedu sy'n caniatáu iddynt gyflenwi alcohol (neu awdurdodi eraill i gyflenwi alcohol) yn unol ag amodau'r drwydded safle.
- c) **Tystysgrif Safle Clwb** – tystysgrif a roddir ar gyfer adeilad a ddefnyddir gan glwb at ddibenion clwb.
- d) **Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro** – pan fo bwriad i ddefnyddio safle ar gyfer un neu ragor o weithgareddau trwyddedadwy am gyfnod o 96 awr neu lai.

1.7 Sylweddolir mai ceisio delio â'r camau sydd o dan reolaeth y trwyddedai a chyffiniau'r safle trwyddedig yn unig y gall y drefn drwyddedu. Nid yw'r broses drwyddedu yn fodd i gadw rheolaeth gyffredinol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol unigolion unwaith y byddant yn gadael y safle trwyddedig a'r tu hwnt i reolaeth uniongyrchol deiliad y drwydded. Fodd bynnag, lle gellir cadarnhau bod y safle trwyddedig yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu unrhyw weithgarwch arall sy'n tansilio'r amcanion trwyddedu, gellir mynd ar drywydd y materion dan y broses drwyddedu. Oherwydd hyn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau cyfagos, yr heddlu, y gwasanaeth tân, y GIG, tafarnau, busnesau lleol a phobl leol er mwyn hybu'r pedwar amcan hwn.

1.8 Bwriedir y bydd y datganiad polisi hwn yn parhau mewn grym am gyfnod o hyd at bum mlynedd o 28 Chwefror 2024. Fodd bynnag, bydd y polisi yn cael ei adolygu'n gyson yn ystod y cyfnod hwn a gwneir unrhyw newidiadau sydd eu hangen, yn amodol ar gydymffurfio â'r gofynion ymgynghori statudol.

1.9 Yn rhan o'r gwaith uchod, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried effaith trwyddedu ar adloniant rheoledig, yn enwedig cerddoriaeth fyw a dawnio.

## 2 CEFNDIR

- 2.1 O ran ei demograffeg, Sir Gaerfyrddin yw'r sir drydedd fwyaf yng Nghymru, ac yr oedd poblogaeth y sir yn 184,681 yn 2013. O'r rheiny roedd 11.6% rhwng 15 a 24 oed, a 22.1% rhwng 25 a 44 oed. Pobl yn y ddwy garfan hon sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio a gweithio yn economi hwyrol ar hyn o bryd. Fodd bynnag y mae 22% o boblogaeth y sir wedi cyrraedd oed pensiwn ac felly un o nodau'r polisi hwn yw sicrhau bod yr economi hwyrol ar gael i bawb ac nid i bobl ifanc yn unig.
- 2.2 Ardal wledig yw Sir Gaerfyrddin yn bennaf ac y mae sylfaen amaethyddol gref yn y sir ynghyd â 'chadwyn' o drefi marchnad allweddol sy'n darparu ar gyfer anghenion y cymunedau gwledig hynny. De-ddwyrain Sir Gaerfyrddin yw'r rhan o'r sir sydd â'r boblogaeth fwyaf, ac un o'i nodweddion yw hen gymunedau diwydiannol clòs. Mae'r ddau fath hyn o amgylchedd gwrthgyferbyniol yn cynnig cyfleoedd a heriau tra gwahanol i'r rheiny sy'n ymwneud â'r economi hwyrol.
- 2.3 Mae economi hwyrol y Sir yn amrywiol iawn ac yn cynnwys clybiau nos canol tref, tafarnau lleol traddodiadol, tafarnau/bwyty, neuaddau pentref a neuaddau cymuned. Mae'r canolfannau llai hyn yn bwysig o ran diogelu a hyrwyddo diwylliant a threftadaeth ieithyddol gyfoethog y Sir. Ar 1 Hydref 2023, roedd gan yr Awdurdod 879 o safleoedd â Thrwyddedau Safle, 69 â Thystysgrifau Safle Clwb a 3105 o Ddeiliaid Trwydded Bersonol unigol.
- 2.4 Yn ddiamau y mae'r economi hwyrol yn cynnig manteision o ran swyddi, incwm, twristiaeth a hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol, ond mae anfanteision amlwg hefyd. Mae niwsans cyhoeddus a phroblemau o ran troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yn digwydd mewn cymunedau gwledig llai yn ogystal ag yng nghanol y trefi mwy.

## 3 YR EGWYDDORION SYLFAENOL

- 3.1 Ymdrinnir â phob cais a dderbynnir o dan ddarpariaethau'r Ddeddf yn ôl ei haeddiant. Fodd bynnag, ni fydd rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ddefnyddio'i ddisgresiwn oni dderbynnir sylwadau yn gwrthwynebu.
- 3.2 Ni fydd unrhyw ran o'r polisi hwn yn tanseilio hawl yr unigolyn i wneud cais am amrywiaeth o ganiatâd o dan y Ddeddf.
- 3.3 Rhoddir y pwysau mwyaf posibl ar bob sylw perthnasol a dderbynnir gan y cyngor ynghylch unrhyw gais a wneir o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, ni fydd sylwadau amherthnasol, blinderus, gwamal neu ailadroddus yn cael eu hystyried.

- 3.4 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio cwota o unrhyw fath a allai benderfynu ymlaen llaw ar unrhyw gais.
- 3.5 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio gosod cyfyngiadau cyffredinol ar oriau masnachu mewn ardaloedd penodol.
- 3.6 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw priodol i'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

## 4 AMODAU TRWYDDEDU

- 4.1 Er mwyn osgoi dyblygu gyda chyfundrefnau statudol eraill cyn belled ag y gellir, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu, pan dderbynnir sylwadau, yn atodi amodau i drwyddedau oni fernir eu bod yn briodol er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu. At ei gilydd, bernir bod amodau'n amhriodol os yw'r materion eisoes wedi derbyn sylw digonol o dan ddeddfwriaeth arall.
- 4.2 Ni chaiff yr Awdurdod Trwyddedu orfodi amodau trwyddedu safonol drwy'r trwch.
- 4.3 Yn 2010, nododd gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) bum amod trwyddedu gorfodol newydd. Yn 2014, disodlwyd yr amodau hynny gan bum amod newydd a gyflwynwyd gan orchymyn diwygio.

Mae'r amodau trwyddedu gorfodol newydd yn ymwneud â:-

- 1) Gwahardd dulliau anghyfrifol o hyrwyddo diodydd.
- 2) Darparu dŵr tap yn rhad ac am ddim ar gyfer cwsmeriaid
- 3) Gofyn bod Polisi Gwirio Oedran yn cael ei fabwysiadu a'i ddefnyddio
- 4) Rhoi cyfle i gwsmeriaid ddewis dognau bach
- 5) Gwahardd gwerthu alcohol am lai na chost toll a TAW.

Mae'r pum amod yn berthnasol i bob trwydded safle a thystysgrif safle clwb sy'n awdurdodi gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle.

Amod gorfodol 3 yw'r unig un sy'n berthnasol i safleoedd sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol oddi ar y safle yn unig.

Mewn rhai amgylchiadau, ni fydd amodau sydd wedi'u hatodi i drwyddedau yn weithredol gan fod y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw, y Ddeddf Dadreoleiddio a gorchymynion deddfwriaethol eraill yn weithredol. I gael cyngor pellach, cysylltwch â'r Adain Drwyddedu.

Anogir deiliaid trwydded i gysylltu â'r Adain Drwyddedu i drafod unrhyw fwrriad i hyrwyddo diodydd cyn iddynt gychwyn. Mae cyfarwyddyd manwl pellach, ynghyd â thudalen newydd yn amlinellu'r amodau, wedi cael ei anfon at bob deiliad trwydded. Mae copiâu pellach o'r cyngor hwn ar gael o'r Adain Drwyddedu.

- 4.4 I gael cyngor ynghylch unrhyw gronfeydd o amodau enghreifftiol a all fod ar gael, cysylltwch â'r Adain Drwyddedu.

## 5 AMCANION TRWYDDEDU – SYLWADAU CYFFREDINOL

- 5.1 Wrth wneud cais am drwydded safle newydd a chais am newid trwyddedau/caniatâd presennol, cynghorir ymgeiswyr i ddangos sut maent yn bwriadu hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.
- 5.2 I wneud hyn, cynghorir yr ymgeiswyr i gynnal asesiad manwl a thrylwyr, gan roi sylw i'r elfennau canlynol, ymhlith eraill:
- Rychwant a natur y gweithgareddau trwyddedadwy a fydd yn digwydd.
  - Am ba hyd y byddant yn para.
  - Natur a lleoliad y safle lle mae'r gweithgareddau i gael eu cynnal (gall hyn gynnwys cyfeiriadau at erddi cwrw, cysgodfannau smygu neu unrhyw fannau agored eraill sy'n rhan o'r safle, neu sy'n cael eu defnyddio gan y safle ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy a/neu yfed alcohol).
  - Natur a lleoliad y safleoedd eraill cyfagos a'u deiliaid.
  - Lefelau sgiliau a gwybodaeth yr unigolion sy'n ymwneud â chynnal y gweithgareddau hynny.
- 5.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori y dylai asesiad o'r fath nodi materion a allai arwain at danseilio'r amcanion trwyddedu.
- 5.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori y dylai asesiad o'r fath, a'i gasgliadau, gael ei gynnwys yn yr amserlen weithredu sy'n ffurfio rhan o'r cais, neu ynghlwm wrtho. Os bydd ymgeiswyr yn dewis peidio â chyflwyno asesiad risg, fe'u cynghorir yn lle hynny i ddarparu datganiad yn esbonio pam, yn eu barn nhw, nad oes angen asesiad risg.
- 5.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n cynghori y dylai'r amserlen weithredu nodi'n fanwl y mesurau rheoli y mae'r ymgeisydd yn bwriadu eu defnyddio i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad.
- 5.6 Os caniateir cais, atgoffir yr ymgeiswyr, lle derbyniwyd sylwadau ynghylch cais, fod gan yr Awdurdod Trwyddedu bwerau i ychwanegu amodau at y



drwydded os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn fod rheolaeth effeithiol dros safleoedd trwyddedig gan staff sydd â phrofiad a hyfforddiant addas yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

### Goruchwylwyr Dynodedig y Safle

- 5.7 Atgoffir ymgeiswyr bod angen iddynt bennu goruchwilydd dynodedig safle os ydynt yn dymuno gwerthu neu gyflenwi alcohol fel rhan o'r drwydded safle. Mae'n rhaid hefyd i'r goruchwilydd hwn ddal trwydded bersonol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymhell yn gryf i bob ymgeisydd mai'r person sy'n rheoli'r safle o ddydd i ddydd yw Goruchwilydd Dynodedig y Safle.
- 5.8.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gallai corff neu sefydliad mawr, megis cadwyn o dafarnau neu archfarchnadoedd, sydd â nifer o safleoedd y mae'n bwriadu gwerthu neu gyflenwi alcohol ynddynt, ddymuno bod aelod uwch o'r staff, megis rheolwr rhanbarthol, yn gweithredu fel goruchwilydd dynodedig ar gyfer nifer o safleoedd. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori'r ymgeiswyr yn gryf i nodi'n glir yn eu manylebau gweithredu sut y bydd goruchwilydd dynodedig y safle yn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo ar y safleoedd dan sylw. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymhell bod hyn yn cynnwys:
- a) Pa mor aml y bydd y goruchwilydd dynodedig yn ymweld â'r safle
  - b) Y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion priodol ynghylch yr amcanion trwyddedu ar y safle a'u harchwilio gan oruchwilydd dynodedig y safle.
  - c) Pennu unigolyn neu unigolion a fydd yn gyfrifol am reoli'r safle o ddydd i ddydd
  - d) Cynnig hyfforddiant priodol i staff ar y safle, gan ystyried eu rolau unigol a'r math o weithgareddau trwyddedadwy sy'n digwydd ar y safle.

### 5.9 Adloniant i Oedolion

Yn dilyn newid Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 i gyflwyno categori newydd o sefydliad, sef Lleoliadau Adloniant Rhywiol, cynghorir ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau presennol sy'n darparu adloniant i oedolion megis Dawnsio Côl, Dawnsio Polyn neu Ddawnsio Bwrdd gysylltu â'r Awdurdod i wirio a oes angen trwydded Lleoliad Adloniant Rhywiol ar wahân ar gyfer y safle. Mae cyfarwyddyd pellach ynghylch darparu adloniant i oedolion ar gael gan yr Adain Drwyddedu.

- 5.10 Cynghorir yr ymgeiswyr i ddarllen y canllawiau a gyhoeddwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Drwyddedu 2003 ac unrhyw ganllawiau eraill y maent yn cyfeirio atynt, wrth iddynt baratoi eu Manylebau Gweithredu.

## 6 ATAL TROSEDDAU AC ANHREFN

- 6.1 Er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn rhoi sylw priodol i'r amcan hwn, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori y dylai'r fanyleb weithredu, lle bo'n briodol, gynnwys cyfeiriad at y canlynol (ymhlith pethau eraill):
- a) Defnyddio camerâu teledu cylch cyfyng, yn yr adeilad a'r tu allan. Argymhellir y dylai camerâu o'r fath, lle maent wedi'u gosod, fodloni'r safon a nodwyd yn y ddogfen gyfarwyddyd ynghylch Gofynion Gweithredu a gyhoeddwyd gan Is-adran Sir Gaerfyrddin Heddlu Dyfed-Powys a bod y delweddau'n cael eu cadw am dri deg un diwrnod. Lle bo camerâu wedi'u gosod, cynghorir ymgeiswyr i ddarparu datganiad yn nodi y gall yr Heddlu a Swyddogion Trwyddedu weld y delweddau ar unrhyw adeg yn ystod oriau agor y safle.
  - b) Rhaid i'r system teledu cylch cyfyng (CCTV) fod yn recordio pryd bynnag y bydd y safle ar agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy, ac o leiaf un awr cyn amser agor ac un awr wedi amser cau.
  - c) Sicrhau bod person ar gael ar y safle sy'n abl i gynhyrchu copi o'r lluniau CCTV ar gais unrhyw asiantaeth sy'n ymchwilio.
  - d) Rhaid i'r system CCTV gael ei gosod a'i chynnal i safon sy'n bodloni Heddlu Dyfed-Powys a'r swyddog diogelwch cymunedol lleol.
  - e) Rhaid i ddeiliad Trwydded y Safle sicrhau bod y system CCTV yn cael ei chadw mewn cyflwr da ac yn gweithio.
  - f) Rhaid i'r trwyddedai neu berson arall priodol archwilio ar hap unrhyw recordiadau sydd ar gael mewn ymgais i'w bodloni eu hunain bod yr holl bolisiau perthnasol ar waith, a gweithredu'n briodol pan fo unrhyw amheuaeth nad yw staff yn dilyn y polisi, er enghraifft, gofyn am brawf adnabod neu gwestiynu 'gwerthiant procsi' posibl.
  - g) Gosod system ddiogeledd o safon gymeradwy i ddiogelu'r safle cyfan, gan gynnwys y storffeydd.
  - h) Gweithdrefnau ar gyfer cynnal asesiadau risg mewn perthynas ag ymgyrchoedd hyrwyddo (e.e. hyrwyddo diodydd) a digwyddiadau arbennig a allai achosi troseddau ac anhrefn. Dylid nodi cynlluniau ar gyfer lleihau'r risgiau.
  - i) Y camau a gymerir i atal pobl rhag defnyddio a chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon.
  - j) Hyfforddi'r staff, gan gynnwys derbyn cymwysterau o safon genedlaethol. Cynghorir yr ymgeiswyr i gadw cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant a ddarperir i'r staff.
  - k) Defnyddio staff diogeled, gan nodi'r nifer a ddefnyddir, y dulliau a ddefnyddir ac unrhyw hyfforddiant a chymwysterau. Atgoffir yr ymgeiswyr am ofynion y Ddeddf Diwydiant Diogeledd. Disgwylir i ymgeiswyr gadw cofrestr, yn nodi manylion y staff diogeled sydd ar ddyletswydd ar unrhyw

adeg, a chaniatáu i'r Heddlu a Swyddogion Trwyddedu weld y gofrestr honno ar unrhyw adeg yn ystod oriau agor y safle.

- l) Lle cyflogir Ceidwaid Drysau, bod hynny ar gymhareb o ddau geidwad drws am y can person cyntaf ac un am bob cant wedi hynny. Os yw ymgeiswyr am ddefnyddio cymhareb wahanol, argymhellir eu bod yn egluro pam.
- m) Yn achos clybiau nos a chanolfannau sy'n cynnal adloniant byw a chyngherddau, defnyddio offer synhwyro metel a/neu unrhyw offer a gweithdrefnau chwilio eraill.
- n) Pryd bynnag y byddant ar ddyletswydd, rhaid i oruchwylwyr drysau wisgo dillad gweledd uchel y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad. Rhaid i'r math o ddillad sydd i'w defnyddio yn yr adeilad fod yn hawdd eu gweld a'u hadnabod mewn safleoedd lle gall fod diffyg golau, fel bod y cyhoedd, heddwision a swyddogion trwyddedu yn gallu eu hadnabod. Pryd bynnag y byddant ar ddyletswydd, rhaid i oruchwylwyr drysau gwblhau cofrestr o'r amserau pan ddaethant ar ddyletswydd a gorffen eu dyletswydd, a rhaid i'r gofrestr gynnwys manylion cyswllt y goruchwyllydd drysau unigol.
- o) Cynghorir rhai safleoedd, yn enwedig rhai sydd â chyfyngiadau mynediad i rai o dan 18, i ystyried trefnu bod swyddogion safonau masnach yn darparu'r hyfforddiant di-dâl am wirio oedran, y manylir arno ym mharagraff 9.10, i staff allweddol megis goruchwylwyr drysau.

- 6.2 Cynghorir yr ymgeiswyr yn gryf i gynnwys datganiad clir yn eu manylebau gweithredu ynghylch y camau a gymerir i atal cwsmeriaid rhag mynd â gwydrau a/neu boteli neu ganiau sydd wedi'u hagog o'r safle.
- 6.3 Cynghorir pob ymgeisydd i gynnwys terfyn nifer ar gyfer y safle yn y fanyleb weithredu, er atal troseddau ac anhrefn, a'r mesurau rheoli i sicrhau bod hynny'n cael ei orfodi.
- 6.4 Cynghorir ymgeiswyr i amlinellu'r camau sydd i'w cymryd i oruchwyllo cwsmeriaid mewn unrhyw leoliad awyr agored ar y safle, boed hynny'n ardd grrw neu'n gaffi stryd, o safbwynt yfed alcohol neu smygu.
- 6.5 Cynghorir ymgeiswyr, os ydynt yn bwriadu gosod byrddau a chadeiriau ar y briffordd neu ar dir preifat, y dylent nodi sut maent yn bwriadu rheoli cwsmeriaid yn y mannau hynny, a phryd maent yn bwriadu symud y byrddau a'r cadeiriau hynny. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu ag adain y Gwasanaethau Stryd i gael cyngor ynghylch yr hawlenni perthnasol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.
- 6.6 Argymhellir bod Deiliaid Trwyddedau yn cefnogi Heddlu Dyfed-Powys mewn unrhyw ymgyrchoedd i atal troseddau ac anhrefn megis cŵn cyffuriau goddefol, peiriant sganio cyffuriau'r Itemiser neu unrhyw offeryn adnodd perthnasol arall.
- 6.7 Anogir deiliaid trwyddedau i chwarae rhan weithredol mewn cynlluniau Gwarchod Tafarnau, LVA, Gwarchod Clybiau, Radio Clybiau, Bihafiwch neu Cewch eich Banio, Best bar none, a Gwarchod Cartrefi, neu unrhyw gynllun

tebyg arall. Cynghorir ymgeiswyr i nodi a ydynt yn fodlon cymryd rhan mewn cynllun o'r fath a hefyd a ydynt yn fodlon ysgwyddo rhywfaint o'r costau.

- 6.8 Anogir deiliaid trwyddedau i hyrwyddo a chyfrannu at unrhyw raglenni, strategaethau neu ymgyrchoedd lleol neu genedlaethol, megis canllawiau diogelwch ar gyfer clybiau, a rhoi sylw i Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed - Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018 (Llywodraeth Cymru 2008).
- 6.9 Cynghorir ymgeiswyr, lle bo cyfyngiadau ar oedran mynediad, y dylent drefnu camau i reoli gweithgareddau o'r fath, gan gynnwys hyfforddiant i'r staff a mabwysiadu cynlluniau megis "yr her 25".
- 6.10 Atgoffir deiliaid trwyddedau am eu dyletswyddau statudol i arddangos rhai dogfennau a hysbysiadau trwyddedu. Mae mynediad priodol at y drwydded ac arddangos y dogfennau crynodol yn elfennau hollbwysig o'r trefniadau rheoli safleoedd a gorfodi. Mae Heddlu Dyfed-Powys a'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod angen i ddogfen grynodol y safle, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hyn, gael ei harddangos yn amlwg i'r cyhoedd, ar uchder cyfleus, heb ei chuddio, ac yn y fath fodd fel y gellir darllen pob un o dudalennau'r ddogfen yn hwylus gan unrhyw un ar y safle. Bydd yr Heddlu a Swyddogion Trwyddedu yn disgwyl i'r person cyfrifol ar y safle fedru cynhyrchu'r drwydded yn ddi-oed.
- 6.11 Os oes angen rhagor o wybodaeth ar ymgeiswyr ynghylch y materion uchod neu ynghylch strategaethau lleol ar gyfer atal troseddau, dylent gysylltu â'r Heddlu yn y cyfeiriad a nodir yn Atodiad B.
- 6.12 Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi nodi'r manau canlynol o fewn y Sir fel ardaloedd trafferthus o ran troseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol. Cynghorir ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau presennol yn gryf i edrych yn arbennig ar gamau gweithredu er mwyn atal troseddau ac anhrefn ar safleoedd yn y strydoedd hyn a'u cyffiniau.

### **Llanelli**

**Stryd Murray, Heol yr Orsaf, Stryd Stepney, Stryd Ann.**

### **Caerfyrddin**

**Ffordd y Cwrwg, Heol Awst, Heol Dŵr, Heol y Prior, Heol y Frenhines, Heol y Brenin, Maes Nott.**

### **Rhydaman**

**Heol y Cei, Stryd y Gwynt.**

## 7. DIOGELU'R CYHOEDD

- 7.1 Atgoffir yr ymgeiswyr mai cyfrifoldeb y trwyddedai yw diogelwch staff a chwsmeriaid ar safle trwyddedig.
- 7.2 Sylweddau Seicoweithredol Newydd**
- Tuedd diweddar yw defnydd ac argaeledd Sylweddau Seicoweithredol Newydd, a elwir 'cyffuriau penfeddwol cyfreithlon'. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod deddfwriaeth weithiau'n araf wrth newid i ddelio â sylweddau o'r fath a bod gan yr Heddlu a'r awdurdod lleol bwerau o dan ddeddfwriaeth arall i fynd i'r afael â safleoedd sy'n cyflenwi sylweddau y gellid eu hystyried yn gyffuriau penfeddwol cyfreithlon. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ddeiliaid trwydded a chlybiau cymwys weithio'n flaenweithgar i annog pobl i beidio â defnyddio neu gyflenwi sylweddau o'r fath mewn safleoedd trwyddedig, ac atal hynny.
- 7.3 Cynghorir pob ymgeisydd yn gryf i gynnwys yn eu cynllun gweithredu fanylion am uchafswm niferoedd y bobl a ganiateir ar y safle ar yr un pryd, sut y cafwyd y ffigur hwnnw, a'r mesurau rheoli i sicrhau bod hynny'n cael ei orfodi.
- 7.4 Atgoffir yr ymgeiswyr y dylid cyfrifo'r niferoedd mwyaf hynny er mwyn sicrhau y gellir gwacáu'r safle'n ddiogel mewn unrhyw argyfwng, nid yn unig os digwydd tân (sy'n destun deddfwriaeth ar wahân). Felly dylai'r niferoedd mwyaf a'r mesurau rheoli arfaethedig hefyd ddarparu ar gyfer mathau eraill o argyfwng (e.e. anhrefn treisgar, llifogydd, bygythion bom ac ati).
- 7.5 Cynghorir pob ymgeisydd yn gryf i asesu pryd gallai defnyddio deunyddiau heblaw gwydr, megis poteli plastig, gwydrau plastig a/neu wydrau wedi'u cryfhau fod yn briodol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod hyn yn arbennig o berthnasol nid yn unig i safleoedd lle ceir niferoedd mawr megis clybiau nos a thafarnau mawr yng nghanol trefi, ond hefyd i safleoedd eraill yn ystod cyfnodau brig megis gwyliau banc a digwyddiadau arbennig eraill, a gerddi cwrw neu gaffis stryd. Gallai methu ag ymdrin â'r mater hwn yn briodol arwain at yr Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb yn cyflwyno sylwadau.
- 7.6 Cynghorir yr ymgeiswyr i nodi'r modd y bwriadant ddarparu cymorth cyntaf digonol ar gyfer staff a chwsmeriaid.
- 7.7 Cynghorir Deiliad y Drwydded i sicrhau bod Polisi Atebolrwydd Cyhoeddus priodol mewn grym ar gyfer ei ddefnydd o'r safle ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. Dylai copi gael ei arddangos yn y prif bwynt mynediad, a'i ddangos i swyddog heddlu neu swyddog yr Awdurdod Trwyddedu ar gais.
- 7.8 Atgoffir ymgeiswyr fod diogelwch trydanol yn hanfodol bwysig. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod y gosodiadau trydanol mewn lleoliad yn cael eu cadw mewn cyflwr gweithredu cywir a

diogel, a'u bod yn cael eu gwirio o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn parhau yn y cyflwr hwnnw.

Cynghorir ymgeiswyr y dylai gosodiadau trydanol y safle gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Sefydliad y Peirianwyr Trydanol ar gyfer Cyfarpar Trydanol mewn Adeiladau (Rheoliadau Weirio'r IEE - a gyflwynwyd o dan BS 7671:2001 a 2002: Gofynion gosodiadau trydanol). Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cynghori y dylai gosodiadau trydan y safle gael eu harchwilio a'u profi'n flynyddol gan beiriannydd trydanol cymwys. Anogir ymgeiswyr i gadw cofnod o dystysgrifau o'r fath am gyfnod o 12 mis.

- 7.9 Atgoffir ymgeiswyr mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd, o dan amgylchiadau lle defnyddir strwythurau dros dro (e.e. llwyfannau, pebyll, seddau ac ati) a/neu osodiadau dros dro (e.e. generaduron, gwresogyddion), yw sicrhau eu bod yn addas at y diben ac wedi eu codi/gosod yn gywir. Anogir ymgeiswyr i sicrhau mai pobl gymwys yn unig sy'n gosod/codi strwythurau a gosodiadau dros dro, a chynghorir yr ymgeisydd yn gryf i sicrhau dystysgrifau cwblhau/cydymffurfiad oddi wrth y personau sy'n gyfrifol am godi neu osod y strwythur. Ar ben hyn, anogir ymgeiswyr i gadw cofnod o dystysgrifau o'r fath am gyfnod o 12 mis wedi derbyn y dystysgrif.
- 7.10 Nid yw defnyddio LPG yn anghyffredin, yn enwedig mewn digwyddiadau awyr agored. O dan amgylchiadau lle bwriedir defnyddio LPG a'i storio, anogir ymgeiswyr i ymgyswrtio â gofynion cod ymarfer y Gymdeithas LPG a glynu atynt.
- 7.11 Atgoffir ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau cyfredol fod angen cydymffurfio â gofynion Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae cyngor ynghylch diogelwch tân ar gael oddi wrth Frigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru, y ceir manylion cyswllt eu hadran Diogelwch Tân yn Atodiad B.
- 7.12 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymhell bod ymgeiswyr yn cysylltu â'r Frigâd Dân, Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch a/neu Wasanaethau Masnachol Cyngor Sir Caerfyrddin, fel y bo'n briodol, i gael gwybodaeth a chyfarwyddyd pellach ar y materion hyn. (Gweler atodiad B am y manylion cyswllt perthnasol).
- 7.13 Cynghorir deiliaid trwyddedau yn gryf i ystyried trafndiaeth staff fel rhan annatod o weithredu busnes diogel. Anogir deiliaid trwyddedau i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd fel yr ymgyrch "Get Me Home Safely" ac i ystyried beth allant ei wneud i sicrhau bod eu staff yn ddiogel. Enghreifftiau i'w hystyried yw:-
- Cost teithio
  - Diffyg trafndiaeth gyhoeddus ar ddiwedd y sifft
  - Y pellter i gerdded i'w car, tacsî, trê'n neu fws
  - Y llwybr y bydd angen i'r aelod o staff ei ddilyn
  - Sut y byddant yn cyrraedd adref
  - Gofyn i staff am eu pryderon

Cynghorir deiliaid trwyddedau yn gryf i nodi atebion ymarferol i hwyluso teithio diogel gartref, trwy gyflwyno mesurau fel:-

Patrymau sifft lle nad oes unrhyw unigolyn yn gadael ar ei ben ei hun Amseroedd addas ar gyfer gorffen sifft i'r rhai sydd angen trafndiaeth gyhoeddus i sicrhau eu bod yn gallu gwneud y daith

Paru lan, fel nad oes unrhyw aelod unigol o staff yn teithio ar ei ben ei hun

Darparu cludiant fel tacsï neu fws mini i fynd â staff adref

Darparu rhifau cyswllt cwmnïau tacsï yn yr ardal

Talu rhywfaint o gostau cael tacsï ar gyfer gweithwyr sifft hwyr.

Cynnwys yr uchod mewn asesiad risg

## 8 ATAL NIWSANS CYHOEDDUS

- 8.1 Atgoffir ymgeiswyr nad yw safleoedd trwyddedig yn bodoli'n ynysig, a bod perygl annatod y gall eu gweithgareddau achosi niwsans cyhoeddus.
- 8.2 Cynghorir ymgeiswyr, fel rhan o'r asesu y cyfeirir ato ym mharagraff 5.2, i nodi enghreifftiau posibl o niwsans cyhoeddus a allai godi o weithgareddau'r safle a'r mesurau a weithredir i'w rheoli.
- 8.3 Anhyglywedd - Ni fyddai presenoldeb syml sŵn ar safle achwynydd yn ddigonol ynddo'i hun i bennu bod y mater yn Niwsans Cyhoeddus neu'n niwsans sŵn statudol fel y diffiniwyd yn adran 79 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Wrth benderfynu ar fodolaeth niwsans cyhoeddus neu niwsans sŵn statudol rhaid ystyried nifer o ffactorau, megis amser, hyd, amllder ac uchder y sŵn.
- 8.4 Atgoffir ymgeiswyr nad yw eu cyfrifoldebau yn y cyswllt hwn yn gyfyngedig i weithgareddau sy'n digwydd y tu mewn i'r safle yn ystod oriau agor. Cynghorir ymgeiswyr i roi sylw (ymhlith pethau eraill) i'r modd y paratwir eu safle ar gyfer agor (e.e. glanhau a derbyn nwyddau), rheoli cwsmeriaid wrth iddynt ddod i mewn i'r safle ac wrth iddynt adael a'r modd y caeir y safle, gan gynnwys sut y gwaredir poteli gwydr.

Cynghorir ymgeiswyr hefyd i ystyried:-

- a) Arddangos hysbysiadau cwrteisi i gymdogion ar y safle.
  - b) Mabwysiadu Polisi Gwasgaru ar gyfer y safle yng nghyswllt unrhyw un sy'n gadael y safle ar ôl hanner nos.
- 8.5 Atgoffir ymgeiswyr nad yw niwsans cyhoeddus yn gyfyngedig i niwsans sŵn. Felly dylid rhoi sylw (ymhlith pethau eraill) i lygredd goleuni, llygredd arogleuon, dirgrynu ac ati.

- 8.6 O ganlyniad i gyflwyno Deddf Iechyd 2006 ac yn dilyn hynny Reoliadau Safleoedd Di-fwg ac ati (Cymru) 2007, mae llawer iawn o safleoedd wedi codi cysgodfannau a manau smygu y tu allan, y mae nifer ohonynt yn defnyddio dodrefn stryd. Dylai ymgeiswyr ystyried yn ofalus osodiad a lleoliad ardaloedd allanol o'r fath, ac fe'u cynghorir y dylai celfi gael eu gosod mewn manau lle na fyddant yn achosi rhwystr i'r cyhoedd.
- 8.7 Cyn codi strwythurau smygu, atgoffir ymgeiswyr i ystyried a allai eu strwythur wrthdaro â chaniatâd cynllunio/adeiladu perthnasol ar gyfer y safle. Os nad yw'r ymgeisydd yn sicr a yw hynny'n wir, neu os yw'n ymwybodol o wrthdaro o'r fath, dylai gysylltu â'r Adain berthnasol yn yr Awdurdod i ddatrys y mater hwn.
- 8.8 Cynghorir ymgeiswyr i ystyried sut rheolir y sŵn yn sgil defnydd o'r cysgodfannau smygu allanol/ardaloedd smygu. Cynghorir ymgeiswyr i leoli ardaloedd o'r fath i ffwrdd oddi wrth eiddo preswyl os oes modd. Cynghorir ymgeiswyr hefyd i ystyried cyfyngu mynediad i ardaloedd felly a'r gweithgareddau ynddynt e.e. dim alcohol yn yr ardaloedd allanol wedi amser penodol a rheoli mynediad iddynt a'u defnydd yn ofalus.
- 8.9 Cynghorir ymgeiswyr i beidio â darparu adloniant megis cerddoriaeth neu deledu yn yr ardaloedd smygu allanol. Yn ogystal â'r aflonyddwch posibl yn sgîl sŵn yr adloniant, mae darparu adloniant y tu allan yn annog pobl i aros allan am gyfnodau hir, a gall hynny ynddo'i hun achosi sŵn ac aflonyddwch.
- 8.10 Mae hysbysebu drwy osod posteri'n anghyfreithlon ar gynnydd, a gall gael effaith niweidiol ar yr ardal o amgylch. Argymhellir ymgeiswyr sy'n defnyddio'r dulliau hynny o hysbysebu i sicrhau gweithdrefnau sy'n clirio'r hysbysebion cyn gynted â phosibl. Atgoffir ymgeiswyr bod codi posteri yn anghyfreithlon yn gallu arwain at atebolrwydd troseddol, a hynny o ran y rhai sy'n gyfrifol am y posteri a'r busnes sy'n cael ei hysbysebu.
- 8.11 Cynghorir ymgeiswyr i ystyried sut mae cwsmeriaid sy'n defnyddio'r ardaloedd smygu yn gwaredu bonion sigarennau. Cynghorir ymgeiswyr i ddarparu cynwysyddion ar gyfer y bonion, a hefyd i sicrhau systemau sy'n cadw'r ardal yn glir o sbwriel.
- 8.12 Mae Tîm Iechyd y Cyhoedd wedi dod ar draws nifer o achosion lle nad yw gwastraff masnachol yn cael ei reoli'n effeithiol gan Safleoedd Trwyddedig. Gall hyn arwain at broblemau iechyd y Cyhoedd, megis plâu cnofilod, clêr ac arogleuon drwg. Mae sefyllfaoedd hefyd wedi codi lle mae safleoedd (yn enwedig safleoedd bwyd) wedi bod yn gwaredu olew gwastraff i'r system draenio dŵr budr, gan greu rhwystr yn y system honno. Atgoffir ymgeiswyr felly eu bod o dan rwymedigaeth i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yng nghyswllt y materion hyn.



- 8.13 Mae Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin wedi llunio cyfarwyddyd manwl pellach er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i ymdrin â'r amcan trwyddedu mewn perthynas â niwsans cyhoeddus. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori ymgeiswyr i roi sylw i'r cyfarwyddyd hwn wrth lunio cynlluniau gweithredu.
- 8.14 Mae dyletswydd ar Dîm Iechyd y Cyhoedd i ymchwilio i gwynion ynghylch niwsans, ac felly hwy ddylai fod yn bwynt cyswllt cyntaf mewn achosion lle bo unigolion yn profi problemau niwsans yn sgil safleoedd trwyddedig.

## 9 AMDDIFFYN PLANT RHAG NIWED

- 9.1 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn mynd ati'n unswydd i fynnu bod rhaid darparu mynediad i blant bob amser ar unrhyw safle. Mewn amgylchiadau arferol bydd hwn yn fater ar gyfer disgresiwn y trwyddedai. Yn gyffredinol ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio cyfyngu mynediad i blant ar unrhyw safle oni fernir bod angen gwneud hynny er mwyn eu hamddiffyn rhag niwed. Atgoffir ymgeiswyr fod eu cyfrifoldebau cyffredinol tuag at staff a chwsmeriaid yn fwy os yw'r staff/cwsmeriaid hynny yn blant.
- 9.2 Cynghorir ymgeiswyr i gynnwys datganiad clir yn eu cynlluniau gweithredu yn nodi pa bryd y bydd plant yn cael eu cyflogi ar y safle a/neu ba bryd y caniateir iddynt fod yn gwsmeriaid ar y safle neu'n berfformwyr mewn adloniant rheoledig. Atgoffir ymgeiswyr am fodolaeth cyfreithiau lleol sy'n rheoli cyflogaeth plant, ac fe'u cynghorir i gysylltu ag addysg a gwasanaethau plant yng nghyswllt y mater hwn.
- 9.3 Mae amrywiaeth o ddewisiadau y gellir eu hystyried ar gyfer cyfyngu mynediad i blant, gan gynnwys:
- a) Cyfyngiad ar yr oriau pryd y gall plant fod yn bresennol.
  - b) Cyfyngiad ar wahardd plant dan oedran arbennig pan fydd gweithgareddau penodol arbennig yn digwydd.
  - c) Cyfyngiad ar y rhannau o'r safle y gall plant gael mynediad iddynt.
  - d) Cyfyngiad ar oedran (i rai o dan 18 oed).
  - e) Gofyniad bod rhaid bod yng nghwmni oedolyn.
  - f) Gwaharddiad llawn ar bobl o dan 18 oed o'r safle pan fydd gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd.
- 9.4 Mewn amgylchiadau lle bydd ymgeiswyr yn bwriadu caniatáu i blant gael mynediad i'r safle, fe'u cynghorir i sefydlu a gorfodi codau ymddygiad eglur sydd i'w dilyn bob amser pan fydd plant yn bresennol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn awgrymu y dylai'r codau hynny gael eu cynnwys o fewn y cynlluniau gweithredu neu eu hatodi atynt a chynnwys cyfeiriad at y canlynol (ymhlith pethau eraill):

- a) Gwahardd iaith anwedus a sarhaus
  - b) Gwahardd ymddygiad bygythiol
  - c) Gwahardd adloniant i oedolion neu adloniant o natur rywiol
  - d) Gwahardd adloniant o natur dreisgar
  - e) Gwahardd gamblo (heblaw nifer fechan o beiriannau AWP).
- 9.5 Cynghorir ymgeiswyr i nodi'n glir pa rannau o'r safle y caniateir i blant gael mynediad iddynt, yr amgylchiadau pryd y gall hynny ddigwydd a'r mesurau rheoli er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei orfodi. Dylai ymgeiswyr ofyn cyngor yr Awdurdod Trwyddedu a'r Gwasanaethau Plant ar bob achos unigol.
- 9.6 Cynghorir ymgeiswyr i gynnwys datganiad yn eu cynllun gweithredu yn nodi na fydd plant oedran ysgol yn cael mynediad i'w safle yn ystod oriau ysgol.
- 9.7 Cynghorir yr ymgeiswyr hynny y defnyddir eu safle ar gyfer darparu gwasanaethau yn benodol i blant a/neu deuluoedd i fabwysiadu'r mesurau canlynol:
- a) Archwiliadau diogelwch ar yr holl staff, yn cynnwys staff dros dro.
  - b) Hyfforddiant ar gyfer staff allweddol mewn perthynas ag amddiffyn plant a materion diogelwch.
  - c) Mabwysiadu terfynau amser penodedig pryd y disgwylir i blant o oedran arbennig adael y safle fel arfer. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymhell 8pm yn achos diwrnod cyn diwrnod ysgol ar gyfer plant hyd at oedran ysgol gynradd, a 10pm ar gyfer plant ysgol uwchradd.
  - d) Gweithdrefnau i sicrhau bod plant nad ydynt yng nghwmni oedolyn yn gallu teithio adref yn ddiogel.
- 9.8 Yn achos safleoedd trwyddedig sy'n llogi ystafelloedd ar gyfer digwyddiadau preifat, eu bod yn mabwysiadu system lle caiff pob digwyddiad ei wirio, er mwyn sicrhau bod y manylion yn rhai bona fide. Rhaid i'r manylion i'w cofnodi gynnwys enw'r sawl a dderbyniodd y manylion, manylion cyswllt y sawl oedd am drefnu'r digwyddiad, a pha gamau a gymerwyd i gadarnhau nad oedd y digwyddiad neu'r achlysur ar gyfer rhai o dan 18 oed. Diben hyn yw atal y safle neu'r rhai sy'n mynychu'r achlysur rhag cyflawni troseddau trwyddedu, er enghraifft mewn parti i rai o dan 18, prom ysgol neu ddigwyddiadau tebyg lle bydd mwyafrif y rhai sy'n bresennol o dan 18 oed.
- 9.9 Cynghorir ymgeiswyr y mae eu safleoedd i gael eu defnyddio ar gyfer partïon neu ddigwyddiadau sydd wedi'u hanelu'n bennaf at bobl ifanc 18 oed ac iau fod y trefniadau canlynol yn ddoeth er mwyn amddiffyn plant rhag niwed.
- Dim ond gan oedolyn y dylid derbyn trefniadau i archebu lle ar gyfer digwyddiadau o'r fath. Dylid ystyried gofyn bod oedolyn yn bresennol i oruchwylio.
  - Dylai Goruchwylydd Dynodedig Safle fod yn bresennol pryd bynnag y caiff y safle ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau o'r fath.
  - Mae angen i'r safle wneud trefniadau penodol i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn gallu cyrraedd adref yn ddiogel. Er enghraifft, sicrhau bod rhadffôn ar gael i archebu tacsis lleol.

- Mae angen gwneud trefniadau penodol i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cyrraedd y safle ac yn cael eu troi i ffwrdd oherwydd eu bod yn feddw yn cyrraedd adref yn ddiogel i ofal rhiant, gofalwr neu oedolyn cyfrifol.
  - Amserau cau pendant, pryd y disgwylir i bartïon o'r fath adael y safle fel arfer.
- 9.10 Dylid rhoi ystyriaeth i oedran staff y bar sy'n gweini yn y digwyddiadau hyn, ac effaith bosibl pwysau cyfoedion ar debygolrwydd gweini alcohol i rai o dan oedran. Dylai'r trefniadau gynnwys goruchwyllo a hyfforddi'r staff hyn i ymdopi â phwysau cyfoedion.
- 9.11 Atgoffir ymgeiswyr am ymchwil a wnaed ar ran yr Adran Plant a Theuluoedd gan Brifysgol Newcastle, a ddaeth i'r casgliad fod plant sy'n camddefnyddio alcohol yn debygol o ddioddef niwed i'w hiechyd corfforol a meddyliol, eu datblygiad addysgol a'u diogelwch personol.
- 9.12 Cynghorir yr ymgeiswyr hynny y defnyddir eu safleoedd i werthu a/neu gyflenwi alcohol i nodi yn eu cynlluniau gweithredu y camau a gymerir i atal gwerthu a/neu gyflenwi alcohol i unigolion dan oedran. Gall hyn gynnwys (ond ni ddylai o reidrwydd gael ei gyfyngu) i'r canlynol:
- a) Bod yr adwerthwr yn mabwysiadu polisi 'yr her 25' er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn mynnu bod prawf adnabod priodol yn cael ei ddangos os ydynt o'r farn y gallai prynwr fod yn 25 oed neu'n iau – “Dim ID – Dim Gwerthu”.
  - b) Bod hysbysiadau/posteri yn cael eu gosod yn y siop, ger y til, i bwysleisio i'r cwsmeriaid y gofynnir iddynt am brawf adnabod os ydynt yn edrych yn 25 oed neu'n iau. Argymhellir bod posteri tebyg ynghylch gwerthu nwyddau sydd â chyfyngiadau oedran yn cael eu gosod yn glir wrth ymyl y nwyddau hynny.
  - c) Pa fathau o brawf oedran fydd yn cael eu derbyn ar y safle e.e. Cerdyn Validate neu unrhyw gerdyn prawf oedran a achredir gan 'PASS'.
  - d) Bod pob gweithiwr newydd yn cael hyfforddiant cynefino ynghylch gwerthu nwyddau â chyfyngiadau oedran arnynt, bod hynny'n digwydd cyn gynted ag y mae gweithiwr yn dechrau ar ei swydd, a bod cofnod ysgrifenedig o'r cyfryw hyfforddiant yn cael ei gadw.
  - e) Bod yr holl staff yn gorfod cael hyfforddiant gloywi o ran gwerthu nwyddau â chyfyngiadau oedran arnynt, a hynny o leiaf unwaith bob 6 mis.
  - f) Bod hyfforddiant o'r fath yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y ffurfiau derbyniol ar brawf adnabod, ac yn enwedig y garden prawf oedran 'Validate', sy'n cael ei hyrwyddo yn Sir Gaerfyrddin. Dylai cardiau adnabod "Validate" enghreifftiol gael eu darparu ar gyfer y staff, fel eu bod yn hyderus o ran eu dealltwriaeth o'r wybodaeth a geir ar gardiau o'r fath.
  - g) Gofyniad bod "Log Gwrthod" yn cael ei gadw, ger y til, gan nodi manylion ynddo bob tro y gwrthodir gwerthu i rywun. Rhaid i'r achosion hyn o wrthod gael eu harchwilio a'u dadansoddi gan y pwyllgor yn rheolaidd, gan ymateb i unrhyw broblemau posib ar unwaith. Mae'n rhaid i unrhyw gamau gweithredu o'r fath gael eu cofnodi, eu llofnodi a'u dyddio.

- h) Lle cyflogir unigolyn o dan 18, dylai'r "goruchwyliwr" perthnasol sy'n gyfrifol am y person hwnnw wneud cofnod wedi'i lofnodi cyn iddynt gychwyn ar eu cyfnod o ddyletswydd bob dydd.
- i) Dylai deiliad trwydded y safle fod wedi gosod system CCTV sy'n monitro'r ardal ymadael. Dylai'r trwyddedai neu berson arall priodol archwilio unrhyw recordiadau CCTV sydd ar gael ar hap, mewn ymgais i fodloni eu hunain bod yr holl bolisiâu perthnasol yn cael eu dilyn, a gweithredu'n addas lle bo unrhyw amheuaeth nad yw'r staff yn dilyn y polisi, er enghraifft peidio â gofyn am brawf adnabod, neu gwestiynu "gwerthiannau procsi" posibl.
- j) Bod polisi ysgrifenedig yn cael ei baratoi mewn perthynas â gwerthu cynnyrch â chyfyngiadau oedran, a bod copi yn cael ei roi i'r holl staff. Dylai polisi o'r fath gael ei adolygu'n flynyddol a, lle bo'n berthnasol, ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith, a/neu gyfarwyddyd a gyflwynwyd gan gyrrff perthnasol.
- k) Lle defnyddir system EPOS, cynhyrchir nodyn atgoffa yn awtomatig ar y til i wneud staff yn ymwybodol bod cynnyrch alcohol wedi cael ei sganio, a bod angen i'r staff gydnabod hynny, cyn bod modd mynd ymlaen i'w werthu.
- l) Trefnu bod Goruchwylydd Dynodedig ar y Safle, a gyflogir yn llawn amser ar y safle, gyda rôl weithredol "ymarferol" a chyfrifoldeb am oruchwylio staff. Bod Goruchwylydd Dynodedig y Safle yn cwblhau'n llwyddiannus gwrs "Trwydded Bersonol" a achredwyd yn genedlaethol o fewn 3 mis ar ôl dyddiad y penderfyniad, a'i fod yn cyflwyno tystiolaeth o hynny.
- m) Bod yr holl ddogfennau y cyfeirir atynt uchod yn cael eu cadw ar y safle a'u bod ar gael bob amser i'r staff, swyddogion Safonau Masnach, Swyddogion Trwyddedu a'r Heddlu. Cynghorir ymgeiswyr, lle gwneir gofyniad o'r fath yn un o amodau'r drwydded, y gellid dehongli methiant i'w cynhyrchu fel dogfennau "nad ydynt ar gael", a allai fod yn achos o dorri'r amodau trwyddedu.

- 9.13 Mae'r Adain Gwasanaethau Safonau Masnach yn cynnig hyfforddiant am ddim i staff safleoedd yng nghyswllt gwerthu alcohol a chynnyrch eraill sydd â chyfyngiad oedran arnynt. Rhaid i ddeiliaid trwyddedau sydd am fanteisio ar y gwasanaeth hwn wneud trefniadau mewn da bryd drwy gysylltu â'r Adain Safonau Masnach gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn Atodiad B.
- 9.14 Dylai'r ymgeiswyr roi sylw i unrhyw gyngor a chyfarwyddyd a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr heddlu a Swyddogion Safonau Masnach Cyngor Sir Caerfyrddin.
- 9.15 Atgoffir yr ymgeiswyr bod y cyngor i gadw cofnodion hyfforddiant a nodir ym mharagraff 6.1 yn y polisi hwn yr un mor berthnasol yn y cyd-destun hwn.
- 9.16 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod mai Adran Addysg a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r corff cymwys i roi cyngor ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed. Mae Atodiad E yn cynnwys y cyfeiriad y dylai'r ymgeiswyr anfon copiâu o'u cais ymlaen iddo.

- 9.17 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cyngori ymgeiswyr yn gryf i ymrwymo fel rhan o'u cynlluniau gweithredu i ddilyn côd ymarfer Grŵp Portman ar enwi, pecynnu a hyrwyddo diodydd sy'n cynnwys alcohol. Os na wneir hynny, gellid ei ystyried fel gwybodaeth yn ymwneud â hyrwyddo diodydd mewn modd anghyfrifol yn unol ag adran 19 (2) o'r Polisi hwn.

## 10 ASESIADAU EFFAITH GRONNOL

### Heol yr Orsaf, Llanelli

- 10.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod nifer y trwyddedau safle a'r tystysgrifau safle clwb sydd mewn grym ar gyfer safleoedd ym mhen isaf Heol yr Orsaf, Llanelli, rhwng y gyffordd â Heol y Frenhines Victoria ac i gyfeiriad y de hyd at y groesfan reilffordd, yn golygu y byddai caniatáu rhagor o drwyddedau yn anghyson â dyletswydd yr awdurdod i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir yr ardal ar y cynllun amgaeedig yn atodiad F.

Mae'r Asesiad Effaith Gronnol yn berthnasol i unrhyw eiddo sy'n ffinio â'r darn perthnasol o Heol yr Orsaf.

Mae'r asesiad effaith gronnol hwn yn berthnasol i eiddo sy'n gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi ar y safle yn ogystal ag eiddo sy'n darparu lluniaeth hwyr y nos.

- 10.2 Lle derbynnir sylwadau perthnasol, bwriad yr Awdurdod Trwyddedu yw gwrthod ceisiadau am y canlynol mewn perthynas â phen isaf Heol yr Orsaf, Llanelli o'r gyffordd â Heol y Frenhines Victoria ac i gyfeiriad y de hyd at y groesfan reilffordd fel y nodwyd ar y cynllun yn atodiad F ar gyfer:

- (a) Trwyddedau am safleoedd newydd
- (b) Amrywio'r cyfryw drwyddedau pan ystyrir ei bod yn debygol y byddant yn ychwanegu at yr effaith gronnol bresennol.

Bwriedir bod yr asesiad yn cael ei weithredu'n llym a bydd yn cael ei ddiystyru mewn amgylchiadau gwirioneddol eithriadol yn unig.

Mae'n annhebygol y bydd eithriadau'n cael eu gwneud am y rheswm bod y safle'n cael ei reoli'n dda neu y bydd yn cael ei reoli'n dda.

Dylai eithriadau fod yn unol â'r rhesymau sydd wrth wraidd yr asesiad.

Gallai eithriad godi pan fydd cais yn cynnig:

- (a) Lleihau i raddau helaeth nifer y bobl sy'n gallu bod ar y safle
- (b) Cyflwyno cyfleusterau bwyta i bobl ar eu heistedd a gwasanaeth gweini yn lle bod pobl yn yfed ar eu sefyll.

- (c) Trosglwyddo darpariaeth o un safle i safle arall, pan fydd maint a lleoliad yr ail safle'n debygol o achosi llai o effaith niweidiol a phan fydd yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- (d) Cyfnewid y gweithgareddau trwyddedadwy presennol ar y safle am weithgareddau trwyddedadwy a fyddai'n cael llai o effaith ar yr ardal ac a fyddai'n fwy tebygol o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Ystyrir bod y mathau canlynol o geisiadau am amrywio trwyddedau yn debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol bresennol:

- (a) Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu bod ar y safle
- (b) Ymestyn oriau gweithredu'r safle
- (c) Cyflwyno cyfleoedd i yfed alcohol ar wahân i yfed wrth gael pryd ar fwrdd.
- (d) Cyflwyno cyfleoedd i fynd â bwyd i ffwrdd o'r safle
- (e) Cyflwyno lloiau dawnsio neu gyfleusterau tebyg
- (f) Unrhyw newid arall i'r modd y mae safleoedd yn cael eu gweithredu sy'n debygol o gael effaith ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- (g) Amrywio amod trwydded safle presennol mewn modd sy'n debygol o gael effaith ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Dyma'r rhesymau dros fabwysiadu'r asesiad hwn:

1. Mae'r darn o Heol yr Orsaf, Llanelli o'r gyffordd â Heol y Frenhines Victoria ac i gyfeiriad y de hyd at y groesfan reilffordd, fel y nodwyd ar y cynllun amgaeedig yn atodiad F, yn cynnwys cyfanswm o 21 o safleoedd trwyddedig, gan gynnwys tafarnau, clybiau nos, siopau trwyddedig a siopau cludfwyd hwyrnos.
2. Mae'r ffordd yn agos at nifer fawr o strydoedd preswyl. Mae tystiolaeth glir bod troseddau ac anhrefn yn gysylltiedig ag alcohol a gyflawnir gan bobl sydd wedi prynu alcohol yn Heol yr Orsaf yn digwydd yn y strydoedd hyn.
3. Mae llawer o safleoedd trwyddedig yn Heol yr Orsaf. Mae tystiolaeth glir sy'n cysylltu'r safleoedd hyn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a sŵn yn hwyr yn y nos yn Heol yr Orsaf a'r strydoedd preswyl gerllaw.
4. Mae tystiolaeth wedi dod i law sy'n dangos bod siopau bwyd hwyrnos yn denu cwsmeriaid wrth iddynt adael canol tref Llanelli sy'n golygu bod llawer mwy o bobl yn yr ardal nag a fyddai fel arall, sydd wedyn yn mynd ar wasgar drwy'r strydoedd preswyl gerllaw.
5. Bu nifer o geisiadau am drwyddedau yn ymwneud â safleoedd yn Heol yr Orsaf sydd wedi tynnu sylw at broblemau yn ymwneud â throseddau ac anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig ag alcohol.
6. Mae'r dystiolaeth i ategu'r uchod i'w chael yn ffeil adolygu'r Polisi ac yn y ffeiliau safleoedd unigol sy'n cael eu cadw gan yr Adain Drwyddedu.
7. Mae'r Heddlu wedi darparu tystiolaeth i gefnogi'r angen parhaus am Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer Heol yr Orsaf. Mae'r dystiolaeth hon wedi'i hatodi yn Atodiad I.
8. Mae'r dystiolaeth o'r gwaith ymgynghori yn dangos bod troseddau ac anhrefn yn gysylltiedig ag alcohol yn parhau i effeithio ar y preswylwyr, ond bod hyn yn digwydd yn bennaf o'r gyffordd â Heol y Frenhines Victoria ac i gyfeiriad y de hyd at y groesfan reilffordd fel y nodwyd ar y cynllun amgaeedig yn atodiad F.

## Heol Awst, Caerfyrddin.

- 10.3 Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod nifer y trwyddedau safle a'r tystysgrifau safle clwb sydd mewn grym ar gyfer safleoedd yn Heol Awst, Caerfyrddin, yn golygu y byddai caniatáu rhagor o drwyddedau yn anghyson â dyletswydd yr awdurdod i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nodir yr ardal ar y cynllun amgaeedig yn atodiad G.

Mae'r Asesiad Effaith gronnol yn berthnasol i unrhyw eiddo sy'n ffinio â'r darn perthnasol o Heol Awst, Caerfyrddin.

Mae'r asesiad effaith gronnol hwn yn berthnasol i eiddo sy'n gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi ar y safle yn ogystal ag eiddo sy'n darparu lluniaeth hwyr y nos.

- 10.4 Lle derbynnir sylwadau perthnasol, bwriad yr Awdurdod Trwyddedu yw gwrthod ceisiadau mewn perthynas â Heol Awst, Caerfyrddin fel y nodwyd ar y cynllun amgaeedig yn atodiad G ar gyfer:

- (a) Trwyddedau am safleoedd newydd
- (b) Amrywio'r cyfryw drwyddedau pan ystyrir ei bod yn debygol y byddant yn ychwanegu at yr effaith gronnol bresennol.

Bwriedir bod yr Asesiad hwn yn cael ei weithredu'n llym a bydd yn cael ei ddiystyru mewn amgylchiadau gwirioneddol eithriadol yn unig.

Mae'n annhebygol y bydd eithriadau'n cael eu gwneud am y rheswm bod y safle'n cael ei reoli'n dda neu y bydd yn cael ei reoli'n dda.

Dylai eithriadau fod yn unol â'r rhesymau sydd wrth wraidd yr Asesiad.

Gallai eithriad godi pan fydd cais yn cynnig:

- (a) Lleihau i raddau helaeth nifer y bobl sy'n gallu bod ar y safle
- (b) Cyflwyno cyfleusterau bwyta i bobl ar eu heistedd a gwasanaeth gweini yn lle bod pobl yn yfed ar eu sefyll.
- (c) Trosglwyddo darpariaeth o un safle i safle arall, pan fydd maint a lleoliad yr ail safle'n debygol o achosi llai o effaith niweidiol a phan fydd yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- (d) Cyfnewid y gweithgareddau trwyddedadwy presennol ar y safle am weithgareddau trwyddedadwy a fyddai'n cael llai o effaith ar yr ardal ac a fyddai'n fwy tebygol o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Ystyrir bod y mathau canlynol o geisiadau am amrywio trwyddedau yn debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol bresennol:

- (a) Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu bod ar y safle
- (b) Ymestyn oriau gweithredu'r safle
- (c) Cyflwyno cyfleoedd i yfed alcohol ar wahân i yfed wrth gael pryd ar ford.

- (d)Cyflwyno cyfleoedd i fynd â bwyd i ffwrdd o'r safle
- (e)Cyflwyno lloriau dawnsio neu gyfleusterau tebyg
- (f)Unrhyw newid arall i'r modd y mae safleoedd yn cael eu gweithredu sy'n debygol o gael effaith ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- (g)Amrywio amod trwydded safle presennol mewn modd sy'n debygol o gael effaith ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Dyma'r rhesymau dros fabwysiadu'r Asesiad hwn:

1. Mae Heol Awst, Caerfyrddin, fel y nodwyd ar y cynllun amgaeedig yn atodiad G, yn cynnwys cyfanswm o 15 o safleoedd trwyddedig, gan gynnwys tafarnau, clybiau nos, siopau trwyddedig a siopau cludfwyd hwyrnos.
2. Mae'r ffordd yn agos at nifer fawr o strydoedd preswyl. Mae tystiolaeth glir bod troseddau ac anhrefn yn gysylltiedig ag alcohol a gyflawnir gan bobl sydd wedi prynu alcohol yn Heol Awst yn digwydd yn y strydoedd hyn.
3. Mae llawer o safleoedd trwyddedig yn Heol Awst. Mae tystiolaeth glir sy'n cysylltu'r safleoedd hyn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a sŵn yn hwyr yn y nos yn Heol Awst a'r strydoedd preswyl gerllaw.
4. Mae tystiolaeth wedi dod i law sy'n dangos bod siopau bwyd hwyrnos yn denu cwsmeriaid wrth iddynt adael canol y dref, sy'n golygu bod llawer mwy o bobl yn yr ardal nag a fyddai fel arall, sydd wedyn yn mynd ar wasgar drwy'r strydoedd preswyl gerllaw.
5. Mae ceisiadau am drwyddedau yn ymwneud â safleoedd yn Heol Awst wedi tynnu sylw at broblemau yn ymwneud â throseddau ac anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig ag alcohol.
6. Mae'r dystiolaeth i ategu'r uchod i'w chael yn ffeil adolygu'r polisi trwyddedu ac yn y ffeiliau safleoedd unigol sy'n cael eu cadw gan yr Adain Drwyddedu.
7. Mae'r Heddlu wedi darparu tystiolaeth i gefnogi'r angen parhaus am Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer Heol Awst. Mae'r dystiolaeth hon wedi'i hatodi yn Atodiad I.
8. Mae'r dystiolaeth o'r gwaith ymgynghori yn dangos bod troseddau ac anhrefn yn gysylltiedig ag alcohol yn parhau i effeithio ar y preswylwyr yn yr ardal a ddangosir ar y cynllun, a amgaeir yn atodiad G.

### **Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin.**

- 10.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn bod nifer y trwyddedau safle sydd mewn grym ar gyfer safleoedd yn Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin yn golygu y byddai caniatáu rhagor o drwyddedau yn anghyson â dyletswydd yr awdurdod i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Dangosir yr ardal ar y cynllun sydd ynghlwm yn atodiad H.  
Mae'r Asesiad Effaith Cronnol hwn yn berthnasol i unrhyw eiddo sy'n ffinio â Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin.  
Mae'r asesiad effaith cronnol hwn yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle yn ogystal ag eiddo sy'n cyflenwi lluniaeth hwyr y nos.



10.6 Lle ceir sylwadau perthnasol, bwriad yr Awdurdod Trwyddedu yw gwrthod ceisiadau mewn perthynas â Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin fel y dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm wrth atodiad H ar gyfer;

(a) Trwyddedau Safleoedd Newydd

(b) Amrywio trwyddedau o'r fath yr ystyrir eu bod yn debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol bresennol.

Rhaid cadw'n llym at yr asesiad hwn ac eithrio mewn amgylchiadau gwirioneddol eithriadol.

Mae'n annhebygol y bydd eithriadau yn cael eu gwneud ar y sail bod y safle yn cael ei reoli'n dda neu bydd yn cael ei reoli'n dda.

Dylid cyfeirio eithriadau at y rhesymau sy'n sail i'r Asesiad.

Gallai eithriad godi pan fydd cais yn cynnig;

(a) Lleihau i raddau helaeth nifer y bobl sy'n gallu bod ar y safle

(b) Cyflwyno cyfleusterau bwyta i bobl ar eu heistedd a gwasanaeth gweini yn lle bod pobl yn yfed ar eu sefyll.

(c) Trosglwyddo darpariaeth o un safle i safle arall, pan fydd maint a lleoliad yr ail safle'n debygol o achosi llai o effaith niweidiol a phan fydd yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

(d) Cyfnewid y gweithgareddau trwyddedadwy presennol ar y safle am weithgareddau trwyddedadwy a fyddai'n cael llai o effaith ar yr ardal ac a fyddai'n fwy tebygol o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Ystyrir bod y mathau canlynol o geisiadau am amrywio trwyddedau yn debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol bresennol:

(a) Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu bod ar y safle

(b) Ymestyn oriau gweithredu'r safle

(c) Cyflwyno cyfleoedd i yfed alcohol ar wahân i yfed wrth gael pryd ar ford.

(d) Cyflwyno cyfleoedd i fynd â bwyd i ffwrdd o'r safle

(e) Cyflwyno lloriau dawnsio neu gyfleusterau tebyg

(f) Unrhyw newid arall i'r modd y mae safleoedd yn cael eu gweithredu sy'n debygol o gael effaith ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

(g) Amrywio amod trwydded safle presennol mewn modd sy'n debygol o gael effaith ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Mae'r rhesymau dros fabwysiadu'r asesiad hwn fel a ganlyn;

1. Mae Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin, fel y nodwyd ar y cynllun amgaeedig yn atodiad H yn cynnwys cyfanswm o 22 o safleoedd trwyddedig, gan gynnwys tafarnau, clybiau nos, a siopau sy'n gwerthu alcohol.
2. Mae'r strydoedd yn agos at nifer o strydoedd preswyl. Mae tystiolaeth glir bod troseddau ac anhrefn yn gysylltiedig ag alcohol a gyflawnir gan bobl sydd wedi prynu alcohol yn Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines yn digwydd yn y strydoedd hyn.
3. Mae llawer o safleoedd trwyddedig yn Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines. Mae tystiolaeth glir sy'n cysylltu'r safleoedd hyn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a sŵn hwyr y nos yn Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines a'r strydoedd gerllaw.
4. Mae cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol, niwsans sŵn a throedd ac anhrefn yn Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin.
5. Mae'r dystiolaeth i ategu'r uchod i'w chael yn ffeil adolygu'r polisi trwyddedu ac yn y ffeiliau safleoedd unigol sy'n cael eu cadw gan yr Adain Drwyddedu.
6. Mae'r Heddlu wedi darparu tystiolaeth i gefnogi mabwysiadu Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin. Mae'r dystiolaeth hon wedi'i hatodi yn Atodiad J.
7. Mae'r dystiolaeth o'r gwaith ymgynghori yn dangos bod troseddau ac anhrefn yn gysylltiedig ag alcohol yn parhau i effeithio ar y preswylwyr yn yr ardal a ddangosir ar y cynllun, a amgaeir yn atodiad H.

## 11 ORIAU TRWYDDEDU

- 11.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gall amserau cau sefydlog ac amserau cau cynnar artiffisial mewn ardaloedd neilltuol arwain at adegau penodol pan geir anhrefn ac aflonyddwch ar y strydoedd wrth i niferoedd mawr o bobl dueddu i ymadael â safleoedd trwyddedig ar yr un pryd. Gellir cymryd felly fod oriau trwyddedu hwy yn ffactor a all fod o bwys wrth leihau gwrthdaro mewn mannau sy'n gwerthu bwyd yn hwyr y nos, safleoedd tacsis a safleoedd cludiant eraill mewn mannau lle mae anhrefn ac aflonyddwch wedi digwydd yn barod.
- 11.2 Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y bydd manteision tybiannol oriau trwyddedu hwy, mewn rhai achosion, yn cael eu negyddu gan anfanteision y cynnydd mewn niwsans cyhoeddus, trosedd ac anhrefn. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd mwy gwledig ac ardaloedd preswyl. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori ymgeiswyr i ystyried y posibilrwydd hwn wrth baratoi eu hamserlenni gweithredu yn unol ag adran 5 o'r polisi hwn.
- 11.3 O ran ymagwedd gyffredinol yr Awdurdod Trwyddedu at oriau trwyddedu, nid oes bwriad i ddechrau llunio unrhyw fath o barthau penodol.

- 11.4 Yn hytrach, edrychir ar nodweddion unigol y safle dan sylw a'r ardal lle y mae wedi'i leoli. Cydnabyddir bod tafarnau, clybiau nos, bwytai, gwestai, theatrau, clybiau aelodau a lleoliadau cymunedol i gyd yn cyfrannu at economi'r cyfnod hwyrol ond mewn gwahanol ffyrdd a chyda gwahanol nodweddion. Rhoddir sylw priodol i'r gwahaniaethau hynny ac i'w heffaith debygol ar y gymuned leol.
- 11.5 Yn gyffredinol, rhoddir caniatâd i eiddo sydd wedi'i drwyddedu i werthu alcohol wneud hynny yn ystod yr oriau arferol y mae'n bwriadu bod ar agor at ddibenion busnes.
- 11.6 Lle derbynnir sylwadau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n delio â mater yr oriau trwyddedu ar sail teilyngdod pob cais unigol. Er enghraifft, wrth gyflwyno trwydded, gellir pennu mesurau rheoli llymach yn achos safleoedd sy'n agos at breswylfeydd.
- 11.7 Bydd disgwyl i ymgeiswyr am drwyddedau newydd, neu'r rhai hynny sy'n gwneud cais am amrywio eu trwyddedau neu ganiatâd presennol, nodi'n fanwl eu hamserlenni gweithredu a'r dulliau rheoli y maent yn bwriadu eu mabwysiadu i ymateb i'r amcanion trwyddedu.
- 11.8 Argymhellir felly fod ymgeiswyr yn caniatáu amser i bobl orffen eu diodydd o fewn eu hamserlenni gweithredu.

## 12 FFILMIAU

- 12.1 Yn achos safleoedd sy'n cael eu defnyddio i ddangos ffilmiau, gosodir amodau sy'n cyfyngu'r cyfle i fynd yno i'r rhai sy'n bodloni'r cyfyngiad ar oedran yn unol ag unrhyw dystysgrif a roddir gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu, mewn achosion penodol, tystysgrif a roddir gan yr Awdurdod Trwyddedu ei hun. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer prosesu ceisiadau yn ymwneud â dosbarthiad. Caiff unrhyw un sydd am gael tystysgrif i ddangos ffilm annosbarthedig mewn lleoliad penodol ei gynghori i gysylltu â'r adain drwyddedu i gael copi o'r weithdrefn cyn trefnu bod y ffilm yn cael ei dangos.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Ddeddf wedi cael ei diwygio i eithrio rhai mathau o adloniant ffilm a ddarperir mewn rhai lleoliadau rhag y gofyniad i fod wedi'u trwyddedu rhwng 8am ac 11pm. Cynghorir y rheiny sy'n ystyried darparu adloniant ffilm i gysylltu â'r adain drwyddedu i gael cyfarwyddyd manwl ynghylch yr eithriadau hyn.

## 13 INTEGRREIDDIO STRATEGAETHAU AC OSGOI DYBLYGU

- 13.1 Ni fwriedir i'r polisi ddyblygu deddfwriaeth neu drefniadau rheoleiddio presennol sydd eisoes yn gosod rhwymedigaethau ar gyflogwyr a gweithredwyr.
- 13.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio sicrhau integreiddiad priodol â'r strategaethau lleol ar atal troseddau, cynlluniau gweithredu a strategaethau o ran camddefnyddio sylweddau, cynllunio, trafnidiaeth, twristiaeth, diwylliant a strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant.
- 13.3 Os bydd unrhyw brotocolau y cytunwyd arnynt gyda'r heddlu yn nodi bod angen neilltuol i bobl gael eu gwasgaru o unrhyw ardal yn gyflym ac yn ddiogel er mwyn osgoi crynhoi a allai arwain at anhrefn a/neu aflonyddwch, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn anelu at roi gwybod i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu cludiant yn lleol er mwyn i drefniadau gael eu gwneud i leihau'r posibilrwydd y bydd problemau'n codi.
- 13.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ceisio annog gweithgareddau trwyddedadwy nad ydynt yn tanseilio'r amcanion trwyddedu ac sy'n gyson â strategaethau ac amcanion datblygu economaidd yr awdurdod, yn enwedig rhai tasglu canol tref Llanelli.
- 13.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod na ddylid ymdrin â cheisiadau am drwydded fel pe baent yn ailadrodd y broses o wneud cais cynllunio ac y dylid cael gwahaniaeth clir rhwng y gyfundrefn gynllunio a'r gyfundrefn drwyddedu er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu, felly, yn mynnu bod gan eiddo y caniatâd cynllunio priodol cyn ystyried cais. Fodd bynnag, atgoffir ymgeiswyr fod gan yr awdurdod cynllunio lleol, fel awdurdod perthnasol, y grym i wrthwynebu trwydded a/neu i wneud cais am osod amodau ar unrhyw drwydded a ganiateir. Hefyd, atgoffir ymgeiswyr nad yw'r ffaith bod caniatâd cynllunio yn caniatáu iddynt weithredu tan amser penodol yn golygu y rhoddir trwydded iddynt o reidrwydd ar yr un telerau, oherwydd defnyddir meini prawf statudol gwahanol o dan y gyfundrefn gynllunio a'r gyfundrefn drwyddedu.
- 13.6 Heblaw'r swyddogaeth drwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod nifer o ffyrdd eraill o ymdrin â materion ymddygiad anystywallt sy'n gallu codi oddi ar safleoedd trwyddedig, gan gynnwys:
- Rheolau cynllunio.
  - Mesurau cadarnhaol i greu amgylchedd diogel a glân yng nghanol trefi, mewn partneriaeth â busnesau lleol, cwmnïau cludiant ac adrannau eraill yr Awdurdod Lleol (ymhlith eraill).
  - Darparu system teledu cylch cyfyng (CCTV) yng Nghanol Trefi, digon o safleoedd tacsis, darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus sydd ar agor yn hwyr yn y nos, glanhau strydoedd a phatrolau sbwriel.

- d) Pwerau Awdurdodau Lleol i ddynodi rhannau o ardal yr Awdurdod Lleol fel manau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus.
- e) Mesurau gorfodi'r Heddlu o ran y gyfraith gyffredinol ynghylch anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys hysbysiadau cosb benodol.
- f) Erllyn unrhyw ddeiliad trwydded bersonol neu aelod o staff ar safle o'r fath sy'n gwerthu alcohol i bobl sydd wedi meddwi.
- g) Mynd ag alcohol oddi ar blant ac oedolion mewn ardaloedd dynodedig.
- h) Pwerau'r heddlu i gau ar unwaith, am hyd at 24 awr, unrhyw safle trwyddedig neu ddigwyddiad dros dro ar sail anhrefn, neu'r tebygolrwydd y bydd anhrefn neu sŵn o'r safle yn achosi niwsans.
- i) Pwerau'r heddlu, awdurdod perthnasol arall neu breswlydd neu fusnes lleol i ofyn am adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif dan sylw.
- j) Pwerau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd i gyflwyno hysbysiadau atal o dan Adran 80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 er mwyn atal niwsans statudol.

13.7 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn parhau i roi sylw i faterion fel hyn drwy Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin.

## 14 CERDDORIAETH, DAWNSIO A THEATR FYW

- 14.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Ddeddf wedi cael ei diwygio gan y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw, y Ddeddf Dadreoleiddio a gorchmynion deddfwriaethol eraill, sydd wedi eithrio rhai mathau o adloniant a ddarperir mewn rhai lleoliadau rhag y gofyniad i fod wedi'u trwyddedu rhwng 8am ac 11pm. Dylid nodi bod y pwerau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn dal i fod yn berthnasol i adloniant sydd wedi'i eithrio a bod yn rhaid i gerddoriaeth fyw a ddarperir mewn safleoedd trwyddedig o dan y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o hyd ac y gallai fod yn destun adolygiad trwydded o hyd. Cynghorir y rheiny sy'n ystyried darparu adloniant i gysylltu â'r adain drwyddedu i gael cyfarwyddyd manwl ynghylch yr eithriadau hyn.
- 14.2 Wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer digwyddiadau byw a/neu gymunedol bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i'r angen am hybu a hyrwyddo cerddoriaeth, dawnsio a theatr fyw er lles diwylliannol ehangach y gymuned gyfan, ac yn arbennig yr angen am gefnogi a hyrwyddo treftadaeth ieithyddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.
- 14.3 Os cyflwynir sylwadau ynghylch y posibilrwydd y bydd aflonyddwch mewn cymdogaeth neilltuol o ganlyniad i gynnal y cyfryw ddigwyddiadau, bydd y sylwadau hynny yn cael eu cydbwysu yn erbyn y manteision ehangach i'r gymuned.

- 14.4 Wrth atodi amodau i drwyddedau a ganiatawyd ar gyfer digwyddiadau o'r fath, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr angen am osgoi mesurau a allai atal cerddoriaeth, dawnsio neu theatr fyw trwy bennu costau sylweddol anuniongyrchol.
- 14.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y cyngor a gafwyd oddi wrth yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn y cyd-destun hwn, sef na ddylid caniatáu i farn lleiafrifoedd croch orbwysu buddiannau cyffredinol y gymuned.
- 14.6 Dim ond amodau sy'n gwbl briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a osodir ar drwyddedau ar gyfer digwyddiadau o'r math hwn.

## 15 DIGWYDDIADAU DROS DRO AR RADDFA FACH

- 15.1 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer achlysuron penodol pan na fydd angen trwydded safle ar gyfer digwyddiad ar raddfa fach (dim mwy na 499 o bobl ar y tro a heb bara am fwy na 168 o oriau) ar yr amod bod rhybudd yn cael ei roi ymlaen llaw i'r Heddlu, lechyd yr Amgylchedd a'r Awdurdod Trwyddedu. Dim ond yr Heddlu neu lechyd yr Amgylchedd gaiff wrthwynebu Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, a hynny os credant bod y digwyddiad yn debygol o danseilio'r amcan atal troseddau.

### **Hysbysiadau Safonol ynghylch Digwyddiad Dros Dro**

- 15.2 Rhaid i bersonau sy'n dymuno cynnal y cyfryw ddigwyddiadau o dan awdurdod hysbysiad safonol ynghylch digwyddiad dros dro roi **o leiaf 10 niwrnod gwaith** o rybudd i'r Heddlu, lechyd yr Amgylchedd a'r Awdurdod Trwyddedu. Nodir y cyfeiriadau y dylid anfon yr hysbysiadau hynny iddynt yn Atodiad C i'r polisi hwn.

### **Hysbysiadau Hwyr ynghylch Digwyddiad Dros Dro**

- 15.3 Gellir cyflwyno hysbysiad hwyr ynghylch digwyddiad dros dro hyd at **bum niwrnod gwaith cyn dechrau** digwyddiad a rhaid ei gyflwyno yn yr un ffordd ag y nodir uchod mewn perthynas â hysbysiadau safonol ynghylch digwyddiad dros dro. Fodd bynnag, os bydd un o'r awdurdodau yn gwrthwynebu hysbysiad hwyr ynghylch digwyddiad dros dro, ni fydd yr hysbysiad yn ddilys ac ni ellir cynnal y digwyddiad.
- 15.4 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymhell bod trefnwyr cyfrifol yn rhoi llawer mwy o rybudd am ddigwyddiadau, fodd bynnag, er mwyn sicrhau y gellir clustnodi a datrys unrhyw broblemau posib ymhell ymlaen llaw, yn ddelfrydol byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno cael rhybudd o dri mis am

ddigwyddiadau dros dro 'ar raddfa fach' er y derbynnir nad yw hyn yn ymarferol bosib ym mhob achos.

- 15.5 Argymhellir yn gryf, felly, fod y rheiny sy'n cyflwyno Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro yn cysylltu â'r swyddogion trwyddedu yn gynnwys wrth gynllunio digwyddiadau o'r fath er mwyn cael cyfarwyddyd pellach ynghylch y broses.
- 15.6 Cynghorir y rheiny sy'n cyflwyno Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro i ystyried y cyngor ar drefnu digwyddiadau i bobl ifanc 18 oed ac iau, sydd ar gael ym mharagraff 9.9, ac effaith yfed alcohol ar bobl ifanc, sydd ar gael ym mharagraff 9.10.
- 15.7 Cynghorir Trefnwyr Digwyddiadau Dros Dro yn gryf i gyfeirio at y cyngor arfer da a geir mewn adrannau eraill o'r ddogfen bolisi hon. Yn benodol :-
- Adran 6 Atal troseddau ac anhrefn,
  - Adran 7 Diogelu'r Cyhoedd
  - Adran 8 Atal niwsans cyhoeddus ac
  - Adran 9 Diogelu plant rhag niwed

Cynghorir trefnwyr hefyd yn gryf i ymgynghori â'r Awdurdodau a restrir yn Atodiad B i gael cyngor ynghylch eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth arall ar wahân.

## 16 DIGWYDDIADAU ACHLYSUROL MWY O FAINT

- 16.1 Bydd angen i drefnwyr digwyddiadau dros dro ar raddfa fwy ar gyfer 500 neu ragor o bobl, gyflwyno cais am drwydded safle. Unwaith eto mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymhell yn gryf bod trefnwyr y digwyddiad yn cysylltu â'r swyddogion trwyddedu wrth ddechrau cynllunio'r digwyddiad. Yn ddelfrydol byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno cael 12 mis o rybudd am ddigwyddiad o'r fath, er ei fod yn cydnabod eto nad yw hyn yn ymarferol ym mhob achos.
- 16.2 Cynhwysir y tabl canlynol i nodi'r cyfnodau lleiaf cyn cynnal digwyddiad a awgrymir ar gyfer cyflwyno cais cyflawn, yn dilyn ymgynghori â'r awdurdodau cyfrifol.

Uchafswm nifer y rhai fydd yn bresennol ar unrhyw adeg benodol	Cyfnod lleiaf o rybudd
500 - 999	Heb fod yn llai na 2 fis

1000 - 2999	Heb fod yn llai na 3 mis
3000 - 4999	Heb fod yn llai na 4 mis
5000 - 19999	Heb fod yn llai na 5 mis
20000 – 49999	Heb fod yn llai na 6 mis
50000 -	Heb fod yn llai na 7 mis

- 16.3 Atgoffir trefnwyr pob digwyddiad dros dro, beth bynnag fo'i faint neu ei hyd, y bydd methiant i gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu mewn da bryd ymlaen llaw yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd y digwyddiad yn cael ei wrthwynebu, ac y gallai hynny arwain at ganslo'r digwyddiad.
- 16.4 Cynghorir trefnwyr digwyddiadau dros dro i baratoi Cynllun Rheoli Digwyddiad sy'n rhoi manylion pob elfen o'r trefniadau ar gyfer y digwyddiad. Cynghorir trefnwyr i gysylltu â'r adain drwyddedu i gael cyngor a chyfarwyddyd ynghylch paratoi cynlluniau rheoli o'r fath.
- 16.5 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn sefydlu Grŵp Ymgynghorol Aml-asiantaeth, a fydd yn cynnwys y gwasanaethau brys a gwasanaethau eraill y Cyngor megis priffyrdd ac iechyd y cyhoedd, i roi cyngor ac i gyd-drefnu'r gwaith cynllunio ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn y Sir, waeth beth fo'u maint a'u hyd.
- 16.6 Cynghorir trefnwyr digwyddiadau dros dro i ystyried y cyngor ar ddigwyddiadau sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc 18 oed ac iau, sydd ar gael ym mharagraff 9.9, ac effaith yfed alcohol ar bobl ifanc, sydd ar gael ym mharagraff 9.10.

## 17 Y BROSES DRWYDDEDU

- 17.1 Cyflawnir pwerau'r Awdurdod Trwyddedu o dan y Ddeddf naill ai gan y Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor y Pwyllgor Trwyddedu neu gan un neu fwy o swyddogion y Cyngor yn unol â'r cynllun dirprwyo, a ragnodir o bryd i'w gilydd gan reoliadau a chanllawiau o dan y Ddeddf. Gweler Atodiad A.
- 17.2 Yn gyffredinol, fodd bynnag, rôl oruchwylio fydd gan y Pwyllgor Trwyddedu i raddau helaeth, gan y bydd ceisiadau y derbynnir gwrthwynebiadau iddynt yn cael eu trafod gan is-bwyllgorau, a cheisiadau na wrthwynebir gan swyddogion. Gweler Atodiad A.
- 17.3 Anogir ymgeiswyr hefyd yn gryf i ymgynghori â'r Awdurdod Trwyddedu, awdurdodau cyfrifol, busnesau a thrigolion lleol wrth baratoi eu ceisiadau. Cred yr Awdurdod Trwyddedu yn bendant y bydd hyn yn cynorthwyo ymgeiswyr i glustnodi problemau posib fel y gellir ymdrin â hwy cyn eu bod yn digwydd, a lliniaru ofnau y cyfryw fusnesau a thrigolion o ran effaith y trefniadau trwyddedu newydd.



17.4 Anogir ymgeiswyr i ymgyfarwyddo ag unrhyw bolisiau perthnasol ar gynllunio a chlodiant, strategaethau diwylliant a thwristiaeth neu strategaethau atal troseddau ac anhrefn yn lleol ac i dalu sylw iddynt, os yw'n briodol, wrth lunio'u hamserlenni gweithredu.

17.5 Y mae rhagdybiaeth na fydd is-bwyllgor yn cynnal ymweliadau safle. Ni threfnir ymweliad safle ond lle derbynir sylwadau dilys, ac mae'r swyddog trwyddedu o'r farn y gallai'r is-bwyllgor elwa o ymweliad o'r fath wrth benderfynu ar y cais. Bydd swyddogion yn ymgynghori â chadeirydd yr Is-bwyllgor perthnasol cyn trefnu ymweliad safle.

Wrth ddelio â cheisiadau lle na threfnwyd ymweliad safle, os bydd yr is-bwyllgor yn teimlo wedi hynny bod angen cynnal ymweliad safle i benderfynu ar y cais, gellir gohirio'r gwrandawriad i ganiatáu i hynny ddigwydd.

#### 17.6 Mân Amrywiadau

Diwygiwyd Deddf Trwyddedu 2003 trwy gynnwys Adrannau 41A i 41C mewn perthynas â mân amrywiadau. Mae hyn yn caniatáu prosesu rhai mân amrywiadau trwy broses 'mân amrywiadau' wedi ei symleiddio.

Fel arfer, bydd mân amrywiadau yn syrthio i un o bedwar categori:

- Mân newidiadau i strwythur neu gynllun safle
- Addasiadau bach i oriau trwyddedu
- Gwaredu amodau a oedd wedi dyddio, yn amherthnasol, neu yn anorfodadwy neu ychwanegu amodau gwirfoddol
- Ychwanegu gweithgareddau trwyddedadwy penodol

Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r Adain Drwyddedu i drafod eu cais arfaethedig cyn cyflwyno cais ffurfiol.

#### 17.7 Safleoedd Cymunedol

Diwygiwyd Deddf Trwyddedu 2003 i ganiatáu eithrio rhai safleoedd cymunedol sydd â thrwydded safle sy'n awdurdodi gwerthu alcohol, neu sy'n gwneud cais am un, rhag yr angen am gael goruchwilydd dynodedig i'r safle.

Ni ellir cyflwyno cais o'r fath ond lle rhoddwyd y drwydded i'r pwyllgor rheoli, a fyddai wedyn yn gyfrifol am oruchwyllo ac awdurdodi'r holl werthiannau alcohol.

Y diffiniad o safleoedd cymunedol yw neuaddau eglwys neu gapel, neuaddau pentref neu gymuned neu adeiladau tebyg.

Cynghorir ymgeiswyr i drafod eu cynigion gyda'r Adain Drwyddedu cyn cyflwyno cais ffurfiol.

## Cyflwyno Sylwadau

- 17.8 Efallai y bydd unigolion sy'n ystyried cyflwyno sylwadau mewn perthynas â chais yn dymuno cysylltu â'r adain drwyddedu i gael rhagor o wybodaeth ynghylch y cais ac i gael cyfarwyddyd ynghylch y broses cyflwyno sylwadau.
- 17.9 Mae'r Awdurdod yn cynghori unigolion sydd am gyflwyno sylwadau i beidio â chyflwyno deiseb, gan ei bod hi'n aml yn anodd gwirio bod pawb a'i llofnododd yn bodloni'r meini prawf yn y ddeddfwriaeth ar gyfer sylwadau perthnasol. Yn unol â chynghor LACORS, lle cyflwynir deisebau hir yng nghyswllt ceisiadau am drwyddedau, dylid darparu prif fanylion cyswllt, er mwyn i'r Awdurdod fedru gohebu'n uniongyrchol â'r unigolyn hwnnw. Darperir gwybodaeth ynghylch y cais i lofnodwyr eraill y ddeiseb ar gais rhesymol.
- 17.10 Er sicrhau effeithlonrwydd a chyfyngu ar gostau'r Awdurdod Lleol, lle derbynir nifer fawr o sylwadau ynghylch cais, efallai na ddosberthir copïau o'r holl sylwadau at bob unigolyn. Fodd bynnag, bydd y dogfennau perthnasol ar gael i'w harchwilio.
- 17.11 Anogir unrhyw unigolion sydd wedi cyflwyno sylwadau yn gryf i ddod i'r gwrandawriad a drefnwyd i benderfynu ar y cais, gan y gallai fod angen i'r pwyllgor roi llai o bwys ar eu sylwadau os na fyddant yn bresennol i ateb cwestiynau ynghylch materion a godir.
- 17.12 Lle nad yw unigolyn yn cytuno i ymgeisydd gael gweld eu manylion personol, fe'u cynghorir y gallai hynny olygu bod llai o bwys yn cael ei roi ar eu sylwadau.
- 17.13 Lle bo gan unigolyn ofn dilys a sail wirioneddol ar gyfer ofni bygythiadau, a allai eu hatal rhag cyflwyno sylwadau, fe'u cynghorir i ystyried cysylltu â'r Awdurdod Cyfrifol perthnasol i drafod eu pryderon ynghylch y cais.
- 17.14 Gall unrhyw unigolyn gyflwyno sylwadau perthnasol mewn perthynas â chais am drwydded.
- 17.15 Bydd disgwyl i unigolion sy'n cyflwyno sylwadau nodi'n fanwl y problemau y cwynir yn eu cylch a sut y maent yn effeithio arnynt.

## 18 ADOLYGU TRWYDDEDAU

- 18.1 Ar unrhyw adeg, ar ôl i drwydded safle gael ei rhoi, caiff unrhyw unigolyn neu awdurdod cyfrifol ofyn i'r Awdurdod Trwyddedu adolygu'r drwydded oherwydd problemau sy'n codi ar y safle mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu. Hefyd, bydd y drwydded fel rheol yn cael ei hadolygu yn sgil unrhyw gamau a gymerir gan yr heddlu i gau'r safle am hyd at bedair awr ar hugain ar sail anhrefn neu niwsans cyhoeddus.

- 18.2 Atgoffir unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwneud cais am adolygu trwydded neu dystysgrif na ellir gwneud y cyfryw gais yn gyfrinachol. Mae'n ofynnol o dan y Ddeddf, i ddilysu'r cais, bod enw'r person neu'r mudiad sy'n gwneud y cais yn cael ei ddatgelu.
- 18.3 Os daw'r cais oddi wrth berson heblaw awdurdod cyfrifol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried i ddechrau a yw'r cais a gyflwynwyd yn amherthnasol, yn flinderus, yn wamal neu'n ailadroddus. Gwneir y penderfyniad hwn gan swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu mewn cydweithrediad â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu.
- 18.4 Ni chaniateir cymryd unrhyw beth yn y polisi hwn i atal unrhyw unigolyn rhag gwneud ceisiadau ar wahân am adolygu gwahanol drwyddedau, neu wneud mwy nag un cais am adolygu'r un drwydded lle mae'r cyfryw geisiadau yn seiliedig ar wahanol gwynion neu dystiolaeth.
- 18.5 Wedi derbyn cais am adolygiad, neu pan fo'r gweithdrefnau cau y cyfeirir atynt ym mharagraff 18.1 uchod yn gymwys, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn trefnu gwrandawriad a gynhelir yn unol â'r rheolau a ragnodwyd.

## 19 DATRYS ANGHYDFODAU

- 19.1 Anogir unigolion neu grwpiau sydd â phryderon ynghylch eiddo neilltuol i drafod eu pryderon yn uniongyrchol gyda'r ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded, yn y lle cyntaf.
- 19.2 Pan fo'r canlynol wedi digwydd bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnig cyfryngu rhwng y partïon dan sylw i geisio ymdrin, crisialu a datrys y materion sy'n peri'r anghydfod:
- a) Gwrthwynebiad dilys i gais am drwydded
  - b) Cais dilys am adolygu trwydded
  - c) Cwyn ddilys ynghylch safle trwyddedig.
- 19.3 Ni fydd y broses hon yn drech na hawl unrhyw barti unigol i ofyn i'r Pwyllgor Trwyddedu (drwy ei is-bwyllgorau) ystyried eu sylwadau, eu cais neu eu gwrthwynebiad, na hawl unrhyw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded i wrthod cymryd rhan yn y cyfryngu.

## 20 GORFODI

- 20.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu protocolau gyda'r heddlu ac awdurdodau gorfodi eraill. Bydd y protocolau hyn yn darparu ar gyfer targedu safleoedd sydd heb drwydded, safleoedd sy'n peri problem a safleoedd lle ceir risg uchel, gan ymdrin yn llai llawdrwm â'r safleoedd hynny sy'n dangos eu bod yn cael eu rheoli a'u cynnal yn dda.
- Mae'r awdurdod wedi sefydlu Grŵp Gweithredu Trwyddedu sy'n darparu fforwm i gynrychiolwyr yr awdurdodau cyfrifol gyfarfod yn rheolaidd i roi ffocws i weithredu cydlynol mewn perthynas â chlybiau neu safleoedd sy'n ffynhonnell cwynion neu bryderon.
- 20.2 Rhoddir ystyriaeth i'r canlynol wrth benderfynu a yw eiddo yn achosi risg uchel:
- Gwybodaeth am anhrefn a/neu niwsans yn yr eiddo neu yn y cyffiniau.
  - Gwybodaeth am werthiant/yfed diodydd sy'n cynnwys alcohol gan bersonau dan oed yn yr eiddo neu yn y cyffiniau.
  - Gwybodaeth am gymryd a/neu werthu cyffuriau yn yr eiddo neu yn y cyffiniau.
  - Gwybodaeth am weithgareddau anghyfrifol i hybu yfed yn yr eiddo.
  - Gwybodaeth am or-yfed yn yr eiddo.
  - A oes modd categorio'r eiddo ar unrhyw adeg fel sefydliad sydd dan ei sang o yfwyr ar eu sefyll neu lle mae nifer fawr o yfwyr ar eu sefyll.
- 20.3 Yn gyffredinol, dim ond yn unol ag egwyddorion gorfodi penodol y bydd camau'n cael eu cymryd, a hynny'n unol â pholisi gorfodi yr Awdurdod Trwyddedu ei hun. I'r perwyl hwn, cedwir at egwyddorion allweddol cysondeb, tryloywder a chymesuredd.

## DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

<b>Y mater dan sylw</b>	<b>Pwyllgor Llawn</b>	<b>Is-bwyllgor</b>	<b>Swyddogion</b>
Cais am drwydded bersonol		Os cyflwynir gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Os na cheir gwrthwynebiad
Cais am drwydded bersonol gyda cholffarnau sydd heb ddarfod		Pob achos	
Cais am drwydded safle/tystysgrif safle clwb		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais am ddatganiad dros dro		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais am amrywio trwydded safle/tystysgrif safle clwb		Os cyflwynir sylwadau perthnasol	Os na chyflwynir sylwadau perthnasol
Cais am amrywio Goruchwylydd Dynodedig Safle		Os cyflwynir gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Cais am dynnu'ch enw fel Goruchwylydd Dynodedig Safle			Pob achos
Atal neu ddiddymu trwydded bersonol		Pob achos	
Cais am drosglwyddo trwydded safle		Os cyflwynir gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Ceisiadau am awdurdodau interim		Os cyflwynir gwrthwynebiad gan yr Heddlu	Pob achos arall
Cais am adolygu trwydded safle/tystysgrif safle clwb		Pob achos	
Penderfyniad ynghylch a yw cwyn yn amherthnasol, yn wamal, yn flinderus ac ati			Pob achos (Mewn ymgynghoriad â Chadeirydd neu Is-gadeirydd Trwyddedu)
Penderfyniad i wrthwynebu os yw'r awdurdod lleol yn ymgynghorai, yn hytrach na bod yn awdurdod perthnasol sy'n ystyried y cais		Pob achos	
Penderfynu ar wrthwynebiad yr Heddlu i hysbysiad am ddigwyddiad dros dro		Pob achos	
Gohirio Is-bwyllgor lle bo'r holl bartïon yn cydsynio			Mewn ymgynghoriad â chadeirydd yr is-bwyllgor
Cais am Ddosbarthu Ffilm		Ffilm heb ei dosbarthu'n flaenorol	Ffilm a ddosbarthwyd yn flaenorol i gael ei

			dangos ar safle gwahanol
--	--	--	--------------------------

## ATODIAD B

MANYLION CYSWLLT

### Yr Awdurdod Trwyddedu

Adain Drwyddedu  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

Rhif ffôn: 01267 234567  
e-bost: [diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk](mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk)

Swyddog Trwyddedu  
Heddlu Dyfed-Powys  
Gorsaf yr Heddlu  
Heol y Ffowndri  
Rhydaman  
Sir Gaerfyrddin  
SA18 2LS

Rhif ffôn: 101 Est. 26464  
e-bost: Bizby David [david.bizby@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:david.bizby@dyfed-powys.pnn.police.uk)

### Yr Awdurdod Cynllunio perthnasol ar gyfer eich safle:-

#### Naill ai

Pennaeth Cynllunio  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LQ

Rhif ffôn: 01267 242454  
e-bost: [cynllunio@sirgar.gov.uk](mailto:cynllunio@sirgar.gov.uk)

## Neu

### **Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn achos safleoedd sy'n rhan o'i ardal weinyddol**

Swyddog Gorfodi  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
Plas y Ffynnon  
Ffordd Cambria  
Aberhonddu  
Powys  
LD3 7HP

Rhif ffôn: 01874 620431  
E-bost: [planning.enquiries@breconbeacons.org](mailto:planning.enquiries@breconbeacons.org)  
Ffacs: 01874 622524

Rheolwr Gwasanaethau Masnachol  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Tŷ Parc-yr-hun,  
Ffordd y Rhyd,  
Rhydaman,  
Sir Gaerfyrddin  
SA18 3EP

Rhif ffôn: 01267 234567  
e-bost: [diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk](mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk)

Rheolwr Safonau Masnach  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

Rhif ffôn: 01267 234567  
e-bost: [diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk](mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk)

Comander y Sir  
Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Pencadlys Sir Gaerfyrddin  
Lôn Pisgwydd  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1SP

Rhif ffôn: 0870 6060699  
Cyfeiriad e-bost: [Mail@Mawwfire.gov.uk](mailto:Mail@Mawwfire.gov.uk)

Yr Adran Addysg a Phlant  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Adeilad 2  
Parc Dewi Sant  
Heol Ffynnon Job  
Caerfyrddin  
SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246544  
e-bost: [gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk](mailto:gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk)

### **Yr awdurdod iechyd a diogelwch perthnasol ar gyfer eich safle**

#### **Naill ai**

Rheolwr Gwasanaethau Masnachol  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
SA31 1LE

Rhif ffôn: 01267 234567  
e-bost: [diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk](mailto:diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk)

#### **Neu**

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch  
Is-adran Gwasanaethau  
Tŷ Myrddin  
Heol yr Hen Orsaf  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LP

Rhif ffôn: 01267 244230

Dylai ymgeiswyr am drwyddedau mewn perthynas â llongau o bob math ('vessels') gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth.



## Atodiad C

CYFEIRIADAU AR GYFER CYFLWYNO HYSBYSIADAU DIGWYDDIADAU DROS DRO

Adain Drwyddedu  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

Rheolwr Gwasanaethau Masnachol  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Tŷ Parc-yr-hun,  
Ffordd y Rhyd,  
Rhydaman,  
Sir Gaerfyrddin  
SA18 3EP

Swyddog Trwyddedu  
Heddlu Dyfed-Powys  
Gorsaf yr Heddlu  
Heol y Ffowndri  
Rhydaman  
Sir Gaerfyrddin  
SA18 2LS

Rhif ffôn: 101 Est 26464  
e-bost: [dee.paffett@dyfed-powys.police.uk](mailto:dee.paffett@dyfed-powys.police.uk)

Dylid nodi ar yr amlenni 'HYSBYSIAD BRYD AM DDIGWYDDIADAU DROS DRO'

**CYFEIRIAD AR GYFER CYFLWYNO CEISIADAU YN YMWNEUD Â'R  
AWDURDOD TRWYDDEDU**

Adain Drwyddedu  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

CYFEIRIADAU AR GYFER CYFLWYNO I'R AWDURDODAU Â CHYFRIFOLDEB

## **Yr Awdurdod Trwyddedu**

Adain Drwyddedu  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

Swyddog Trwyddedu  
Heddlu Dyfed-Powys  
Gorsaf yr Heddlu Rhydaman  
Heol y Ffowndri  
Rhydaman  
Sir Gaerfyrddin  
SA18 2LS

## **Yr Awdurdod Cynllunio Perthnasol**

**Naill ai,**

Pennaeth Cynllunio  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

**Neu**

**Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn achos safleoedd sy'n rhan o'i ardal weinyddol**

Swyddog Gorfodi  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
Plas y Ffynnon  
Ffordd Cambria  
Aberhonddu  
Powys  
LD3 7HP

Rheolwr Gwasanaethau Masnachol (ar gyfer materion niwsans cyhoeddus)  
Adran Cymunedau  
Tŷ Parc-yr-hun,  
Ffordd y Rhyd,  
Rhydaman,  
Sir Caerfyrddin  
SA18 3EP

Rheolwr Safonau Masnach  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LE

Comander y Sir  
Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Pencadlys Sir Gaerfyrddin  
Lôn Pisgwydd  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1SP

Yr Adran Addysg a Phlant  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Adeilad 2  
Parc Dewi Sant  
Heol Ffynnon Job  
Caerfyrddin  
SA31 3HB

**Yr awdurdod iechyd a diogelwch perthnasol ar gyfer eich safle,**

**Naill ai**


Rheolwr Gwasanaethau Masnachol (ar gyfer materion diogelwch y cyhoedd)  
Adran Cymunedau  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Heol Spilman  
Caerfyrddin  
SA31 1LE


Neu


Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch  
Is-adran Gwasanaethau

Tŷ Myrddin  
Heol yr Hen Orsaf  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1LP


Dylai ymgeiswyr am drwyddedau mewn perthynas â llongau o bob math ('vessels') gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth.











# Ymgynghoriad Polisi Trwyddedu 2023

## Asesiadau Effaith Gronnol

### Heol yr Orsaf, Llanelli, Heol Awst, Sgwâr Nott, a Heol y Frenhines, Caerfyrddin

#### Heol yr Orsaf, Llanelli

##### Sylwadau Rhingyll yr Heddlu Ben Ashton

Fi yw'r Rhingyll Ben Ashton o Hwb Atal Caerfyrddin ac rwyf wedi gweithio i Dîm Plismona yn y Gymodgaeth Llanelli ers y tair blynedd diwethaf.

Rwy'n cefnogi'r Asesiad Effaith Gronnol ar gyfer Heol yr Orsaf, Llanelli. Rwyf wedu darparu data ar alw mewn dogfen ar wahân ond hefyd byddaf yn rhannu sylwadau'r tîm plismona yn y gymodgaeth lleol.

Ffordd hir drefol yw Heol yr Orsaf sy'n mynd trwy Lanelli gan gysylltu Tyisha a Glanymor â Chanol y Dref. Mae'n rhedeg trwy Tyisha sydd, yn ôl Mynegai Amddifadedd Cymru 2019, yn cael ei rhestru fel yr 17eg stryd fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r stryd yn cynnwys cymysgedd o adeiladau masnachol, anheddau preifat a chymdeithasol. Mae nifer o safleoedd trwyddedig sy'n gwerthu alcohol, bwyd hwyr y nos a siopau trwyddedig. Mae'r ardal yn rhan o brosiect adfywio Tyisha.

Heol yr Orsaf yw'r stryd y caiff yr Heddlu ei alw iddi fwyaf yn ardal Dyfed-Powys. Y mathau o ddigwyddiadau a adroddir amdanynt fwyaf yn y stryd yw troseddau trefn gyhoeddus, ymosodiadau a thrais domestig. Mae'r mathau hyn o droseddau yn aml yn gysylltiedig ag yfed alcohol.

O'r 10 safle caiff yr Heddlu ei alw iddynt fwyaf yn Heol yr Orsaf, mae 6 ohonynt yn safleoedd trwyddedig, ac mae'r galw ar ei fwyaf ar ôl 9pm y rhan fwyaf o nosweithiau ac ar y penwythnos. Mae'n rhesymol tybio y byddai unrhyw gynnydd yn nifer y safleoedd trwyddedig yn cynyddu nifer y digwyddiadau yn yr ardal honno. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar bobl y gymuned, gan gynyddu'r tebygolrwydd o fod yn ddiodefwr neu o leiaf leihau lefelau diogelwch canfyddedig. Byddai hyn yn cynyddu'r galw ar adnoddau plismona lleol.

Yn ystod nosweithiau prysur, mae nifer y bobl feddw sy'n dod allan o safleoedd trwyddedig yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ac anhrefn, ac mae'r rhain yn aml ar adegau pan fydd adnoddau'r heddlu yn brin. Mae Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO) ar waith sy'n cwmpasu Heol yr Orsaf a strydoedd cyfagos. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ond mae disgwyl iddo gael ei ymestyn am dair blynedd arall. Cyflwynwyd y PSPO fel mesur i leihau ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a achosir gan feddwod. Ers ei gyflwyno, mae dros 300 o achosion o gymryd alcohol oddi ar feddiant pobl wedi bod. Er mai dim ond cyfran fach o'r achosion hynny a wnaed yn Heol yr Orsaf ei hun, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi digwydd o fewn 5 munud ar droed o'r stryd. Mae hyn yn debygol oherwydd diffyg ardaloedd i eistedd a chymdeithasu o gymharu ag ardaloedd eraill gerllaw.

Yn ystod patrolau mae swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn nodi llawer iawn o sbwriel ar Heol yr Orsaf ac mewn lonydd a strydoedd cyfagos. Mae'r sbwriel hwn yn rheolaidd yn cynnwys caniau diodydd alcoholig a gwydr wedi torri cysylltiedig ag alcohol. Mae hyn yn parhau er gwaethaf yr asesiad effaith gronol presennol, ac mae'n rhesymol tybio y byddai'n cynyddu pe bai argaeledd alcohol yn cael ei gynyddu yn y lleoliad hwnnw.

Mae nifer fawr o eiddo preswyl yn Heol yr Orsaf ar ffurf fflatiau dros eiddo masnachol, ac yn y pen deheuol mewn tai cymdeithasol a thai HMO. Byddai preswylwyr yn y cartrefi hyn yn destun cynnydd mewn sŵn ac aflonyddwch pe bai mwy o safleoedd trwyddedig yn agor. Rwy'n ymwybodol bod cwynion am sŵn eisoes wedi'u gwneud i'r awdurdod lleol am rai lleoliadau'n chwarae cerddoriaeth uchel hyd oriau mân y bore.

Mae tîm plismona yn y gymdogaeth Llanelli yn cefnogi parhad y mesurau a gymerwyd i gael lefel uwch o asesiad ar gyfer unrhyw drwyddedau newydd arfaethedig yn Heol yr Orsaf, gan ein bod yn credu mai hynny sydd orau i bob aelod o'r gymuned, gan gynnwys busnesau presennol, trigolion lleol, gwasanaethau brys a'r awdurdod lleol.

## **Trosolwg o Dref Llanelli**

Gan ystyried tref Llanelli gyfan (wardiau Bigyn, Elli, Glanymor, Hengoed, Lledi a Tyisha gyda'i gilydd), rhwng Gorffennaf 2022 a Gorffennaf 2023 cafodd cyfanswm o 13,737 o ddigwyddiadau eu hadrodd i Heddlu Dyfed-Powys. Cofnodwyd bod tua 1833 o ddigwyddiadau yn ymwneud ag alcohol.

O ganlyniad i'r digwyddiadau hynny, cofnodwyd 3857 o droseddau.

Yn ystod yr un cyfnod, roedd cyfanswm o 675 o alwadau i Heddlu Dyfed-Powys yn ymwneud ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chofnodwyd bod 91 o'r digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol hynny yn gysylltiedig ag alcohol.

## **Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (PSPO)**

Mae gan dref Llanelli PSPO i bob pwrpas tan fis Hydref 2023 sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'i ymestyn. Mae'r PSPO yn atal yfed alcohol mewn ardal ddynodedig ac yn ei gwneud yn drosedd i wrthod rhoi'r gorau i yfed neu ildio alcohol pan

ofynnir iddynt wneud hynny. Mae'r ardal ddynodedig yn cynnwys Heol yr Orsaf. Ers mis Hydref 2020 a mis Gorffennaf 2023 mae 386 o achosion o gymryd alcohol oddi ar feddiant pobl wedi'u cofnodi. Mae 32 o achosion wedi eu gwneud ar Heol yr Orsaf.

### Troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Heol yr Orsaf, Llanelli

O'r 13,737 achos a gofnodwyd yn Llanelli, cofnodwyd bod 966 (7%) wedi digwydd yn Heol yr Orsaf. Nifer y digwyddiadau yn ymwneud ag alcohol oedd 118 (12%). Cafodd 158 o droseddau eu cofnodi, gyda 47 ohonynt yn ymwneud ag alcohol.

Ffigur 1: Troseddau yn Heol yr Orsaf yn ôl Math o Leoliad

Math o Leoliad	Cyfanswm	% yn gysylltiedig ag alcohol
Preswylfa	4	9%
Tafarn/Clwb Nos	24	51
Priffordd Gyhoeddus	18	38
Safleoedd Masnachol/Manwerthu Eraill	1	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>47</b>	<b>100%</b>

Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol (ffigur 2) yn rhoi dadansoddiad o'r 47 o droseddau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol a gyflawnwyd yn Heol yr Orsaf yn ôl math o drosedd.

Ffigur 2: Troseddau a oedd yn Gysylltiedig ag Alcohol yn Heol yr Orsaf, yn ôl Math o Drosedd

<b>Math o Drosedd</b>	<b>Cyfanswm yn Gysylltiedig ag Alcohol</b>	<b>% yn gysylltiedig ag alcohol</b>
Ymosodiadau	26	55
Difrod Troseddol	6	13
Aflonyddu	5	11
Meddu ar Arf	1	2
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	3	6
Dwyn	1	2
Troseddau Rhywiol	2	4
Traffig Ffyrdd	3	6
Cyfanswm	47	100%

### **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a oedd yn Gysylltiedig ag Alcohol yn Heol yr Orsaf, Llanelli**

O blith y 679 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd yn Nhref Llanelli yn ystod cyfnod yr adolygiad, digwyddodd 8% yn Heol yr Orsaf (51 o achosion). Mae'r tabl ar y dudalen ganlynol (ffigur 3) yn rhoi dadansoddiad o ble y digwyddodd y 51 o

achosion a faint o'r achosion hynny oedd yn gysylltiedig ag alcohol. Unwaith eto, mae'r ffigur hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel.

Ffigur 6: Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Heol yr Orsaf yn ôl Math o Leoliad

<u>Math o Leoliad</u>	<u>Cyfanswm</u>	<u>Y Nifer oedd yn Gysylltiedig ag Alcohol</u>	<u>% yn gysylltiedig ag alcohol</u>
<u>Preswylfa</u>	7	3	43
<u>Tafarn/Clwb Nos</u>	9	2	22
<u>Safleoedd Trwyddedig Eraill</u>	3	0	0
<u>Priffordd Gyhoeddus</u>	22	4	18
<u>Safleoedd Masnachol/Manwerthu Eraill</u>	9	2	22
<u>Adeilad Arall</u>	1	1	100
<b><u>Cyfanswm</u></b>	<b>51</b>	<b>12</b>	<b>24%</b>

### Ffactorau o ran amser

Yn ystod cyfnod yr adolygiad o 12 mis cofnodwyd cyfanswm o 1017 o droseddau oedd yn gysylltiedig ag alcohol rhwng 10pm a 6am ar draws Tref Llanelli, a chyflawnwyd 12% o'r troseddau hynny (118) ar hyd Heol yr Orsaf.

Gellir dadansoddi hyn ymhellach i ddyddiau'r wythnos ac amseroedd. Dydd Sul yw'r diwrnod â'r nifer mwyaf o droseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol (yn sgil economi'r nos a'r hwyr ar nos Sadwrn) ac yna dydd Sadwrn, dydd Gwener a dydd Mawrth. Yr oriau lle mae'r nifer mwyaf o'r troseddau hyn yn cael eu cofnodi yw rhwng 10pm a 3am.

### **Cyfyngiadau Data**

1. Mae'r ystadegau a ddarperir mewn perthynas â throseddau a digwyddiadau alcohol yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o wir natur a maint y broblem. Mae'r darlun wedi'i ddrysus gan y ffaith bod gwahanol ffynonellau gwybodaeth yn awgrymu casgliadau gwahanol. Gall data'r heddlu, yn arbennig, amcangyfrif yn rhy isel faint o droseddau treisgar cysylltiedig ag alcohol sy'n digwydd. Amcangyfrifir bod yr Heddlu'n cael gwybod am lai na chwarter y troseddau treisgar sy'n arwain at driniaeth mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.
2. Mae'r holl wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi deillio o chwiliadau yn systemau trosedd a digwyddiadau Heddlu Dyfed-Powys. Mae cofnodion a ddefnyddiwyd wrth fesur lefel y digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi'u tynnu lle ychwanegwyd tag neu ystadegyn *modus operandi* sy'n nodi bod alcohol yn ffactor presennol. Mae ymchwil wedi dangos nad yw'r tagiau neu'r ystadegau hyn wedi'u cymhwyso ym mhob achos ac oherwydd y cyfyngiad hwn, mae'n bosibl nad yw'r holl gofnodion perthnasol sy'n ymwneud ag alcohol wedi'u hadolygu.
3. Tasg rhy gymhleth yw rhoi darlun cwbl gywir o ran faint o droseddau a digwyddiadau sydd wedi cael eu cyflawni gan berson o dan ddylanwad alcohol (troseddwr / person dan amheuaeth cysylltiedig ag alcohol) oherwydd cyfran y troseddau lle na chlustnodwyd rhywun dan amheuaeth neu droseddwr neu efallai y bydd oedi cyn rhoi gwybod am drosedd, sy'n ei gwneud hi'n anodd gwybod a oedd y troseddwr / person dan amheuaeth dan ddylanwad alcohol adeg y drosedd. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl bod y troseddwr(wyr) wedi gadael lleoliad y drosedd neu'r digwyddiad cyn i'r heddlu gyrraedd.
4. Y ffordd y cofnodir elfennau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, nid yw bob amser yn bosibl gwahaniaethu rhwng mathau o ddigwyddiadau. Mae llawer o ddigwyddiadau'n cynnwys amrywiaeth eang o ymddygiadau y gellir eu hystyried yn wrthgymdeithasol ac mae siawns sylweddol y gall mwy nag un achwynydd roi gwybod am un digwyddiad ac i fwy nag un asiantaeth. Yn ogystal â hyn, mewn nifer o achosion efallai na fydd y sawl sy'n rhoi gwybod am y drosedd yn gwybod a yw'r tramgwyddwyr o dan ddylanwad alcohol, neu i'r gwrthwyneb gall yr achwynydd gymryd bod y tramgwyddwr o dan ddylanwad, pan nad yw mewn gwirionedd.

## **Sgwâr Nott, Heol y Brenin, Heol y Frenhines a Heol Awst, Caerfyrddin.**

### **Sylwadau'r Heddwes Alex James**

Rwy'n Gwnstabl Heddlu yn Nhîm Plismona yn y Gymdogaeth Caerfyrddin, ac rwyf wedi bod yn y swydd ers 3 blynedd. Cyn hyn, roeddwn yn swyddog ymateb yn gweithio yn adran Caerfyrddin ac mae gen i wybodaeth helaeth am y dref a'r materion mae'n rhaid i'r heddlu ymwneud â nhw.

Rwy'n cefnogi mabwysiadu Asesiad Effaith Gronnol pellach ar gyfer Sgwâr Nott, Heol y Brenin a Heol y Frenhines, Caerfyrddin gan fod gan yr ardaloedd hyn lawer o safleoedd trwyddedig eisoes, ac maent yn agos at ei gilydd yn yr un rhan o dref Caerfyrddin.

Mae Sgwâr Nott yn ardal fechan i gerddwyr yng nghanol y dref sydd â phedwar safle trwyddedig agored ar hyn o bryd sy'n cynnwys bwytai, tafarndai a chlybiau nos. Mae Heol y Brenin a Heol y Frenhines ger Sgwâr Nott; ac ar y pryd mae gan Heol y Frenhines dri lleoliad trwyddedig agored sy'n dafarndai/clybiau nos, ac mae gan un ohonynt drwydded 24 awr. Mae pedwar tafarn a bwyty trwyddedig agored arall yn Heol y Brenin. Gyda'r holl lleoliadau trwyddedig hyn o fewn ardal fach, mae'n her sylweddol i'r heddlu wrth reoli'r economi hwylol. Ar nosweithiau prysur mae nifer y bobl feddw sy'n dod allan i'r strydoedd hyn yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anhrefn, ac ar adegau pan fo adnoddau'r heddlu yn brin ni ellir eu rheoli'n ddiogel. Mae'r ardal hon yn 'fan problemus' ar gyfer troseddau cysylltiedig ag alcohol a chyffuriau fel gorchmynion cyhoeddus, ymosodiadau, difrod troseddol, meddiant cyffuriau a chyflenwi cyffuriau.

Mae'r galw gan gwsmeriaid am y safleoedd trwyddedig presennol ac eithrio ar nos Sadwrn yn isel, ac rydym wedi gweld rhai o'r lleoliadau hyn yn agor fel disgos 'dan 18' gan fod mwy o arian i'w wneud o safbwynt busnes i'w hagog i blant. Mae'r disgos hyn wedi cyflwyno math gwahanol o broblem i'r dref a'r heddlu yn benodol, sydd unwaith eto'n rhoi straen fawr ar wasanaeth yr heddlu. Cynhelir y disgos hyn unwaith neu ddwywaith y mis, pryd mae hyd at 300 o bobl ifanc yn eu harddegau yn dod i ardal Sgwâr Nott eisoes yn feddw trwy ddiod a/neu gyffuriau. Mae hyn yn creu delwedd negyddol iawn o dref Caerfyrddin wrth i lawer o'r cyhoedd lleol gael eu haflonyddu, eu dychryn a mynd i boeni am yr hyn maent yn ei weld a'i glywed. Mae'r bobl ifanc hyn yn cuddio alcohol o amgylch y dref, gan ymgynnull mewn grwpiau mawr gan godi ofn, gweiddi/rhegi a chwydu yn y strydoedd. Cydnabyddir nad oes unrhyw alcohol yn cael ei werthu gan y lleoliad sy'n cynnal y partiön hyn, ond mae'n gyffredin i bobl ifanc mor ifanc â 13 oed fod yn feddw yng nghanol y dref. O siarad â busnesau eraill a'r cyhoedd yn y dref, mae'r ymddygiad hwn wedi peri i gwsmeriaid fynd oddi yno neu gadw draw gan nad ydynt am ddioddef yr ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn.

Yr hyn nad ydym am ei weld yw mwy o safleoedd trwyddedig yn dod i'r ardal, ac, oherwydd diffyg busnes, y rheiny'n agor fel disgos 'dan 18' sy'n boblogaidd iawn gyda'r demograffig oedran hwnnw ac a fydd bob amser yn denu busnes.



Mae sawl eiddo preswyl yn y tair ardal dan sylw a fyddai eto'n gweld cynnydd mewn sŵn ac aflonyddwch pe bai mwy o safleoedd trwyddedig yn agor. Rwy'n ymwybodol bod cwynion am sŵn eisoes wedi'u gwneud i'r awdurdod lleol ynghylch rhai o'r lleoliadau sy'n chwarae cerddoriaeth uchel hyd oriau mân y bore.

Bydd tîm plismona yn y gymdogaeth Caerfyrddin yn croesawu unrhyw fesurau ychwanegol a gymerir i gael lefel uwch o asesiad ar gyfer unrhyw drwyddedau newydd arfaethedig yn y tair stryd a grybwyllir, gan ein bod yn credu mai hynny sydd orau i'r busnesau presennol, trigolion lleol, gwasanaethau brys a'r awdurdod lleol.

### Trosolwg ar Dref Caerfyrddin

Gan ystyried tref Caerfyrddin gyfan (wardiau De Caerfyrddin, Gorllewin Caerfyrddin, Tref Caerfyrddin a Llangynnwr gyda'i gilydd), rhwng Gorffennaf 2022 a Gorffennaf 2023, adroddwyd cyfanswm o 8989 o ddigwyddiadau i Heddlu Dyfed-Powys. Cofnodir bod tua 1114 o'r digwyddiadau hyn yn ymwneud ag alcohol.

O'r holl ddigwyddiadau adroddwyd i Heddlu Dyfed-Powys, cofnodwyd 2116 o droseddau.

Yn ystod yr un cyfnod, roedd cyfanswm o 227 o adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. O'u plith, cofnodwyd bod 50 ohonynt yn gysylltiedig ag alcohol neu'n cyfeirio at feddwod.

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Tref Caerfyrddin

Rhwng 2021 a 2023 roedd 4 achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol wedi digwydd yn benodol yn Sgwâr Nott. Mae tri o'r digwyddiadau hyn wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth â strydoedd economi hwyr nos eraill yng Nghaerfyrddin.

Lleoliad	Digwyddiadau Gwrthgymdeithasol (2021-2023)
Y CLOS MAWR, CAERFYRDDIN	3
HEOL Y BRENIN, CAERFYRDDIN	6
HEOL AWST, CAERFYRDDIN	13
SGWÂR NOTT, CAERFYRDDIN	4
HEOL Y FRENHINES, CAERFYRDDIN	2

### Troseddau yn Nhref Caerfyrddin

Rhwng Gorffennaf 2022 a Gorffennaf 2023, cofnododd Heddlu Dyfed-Powys 2116 o droseddau ledled tref Caerfyrddin. Roedd 343 o droseddau yn gysylltiedig ag alcohol neu feddwdod.

Rhwng Gorffennaf 2022 a Gorffennaf 2023, cofnododd Heddlu Dyfed-Powys 29 o droseddau yn Sgwâr Nott. Digwyddodd y rhan fwyaf (25) o'r troseddau rhwng 1900 o'r gloch a 0600 o'r gloch gyda'r galw ar ei uchaf ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

Math	Nifer y Troseddau	%
Trais yn erbyn Person	23	79
Trefn Gyhoeddus	3	10
Difrod Troseddol	1	3
Cyffuriau	1	3
Dwyn	1	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>29</b>	

Digwyddodd y rhan fwyaf o'r troseddau ar y briffordd gyhoeddus, ac roedd 21% o'r troseddau mewn safle trwyddedig.

Math o Leoliad	Nifer y Troseddau	% y troseddau
Tafarn/Clwb Nos	6	21
Priffordd Gyhoeddus	23	79
<b>Cyfanswm</b>	<b>29</b>	<b>100%</b>

Rhwng 2021 a 2023 cofnodwyd 9 trosedd cysylltiedig ag alcohol yn Sgwâr Nott, yr oedd 8 ohonynt yn y 12 mis diwethaf. Digwyddodd y rhain i gyd heblaw un yn hwyr ar nos Sadwrn neu yn oriau mân bore dydd Sul.

Mae'r tabl isod yn cymharu â strydoedd economi hwyrnos eraill yng Nghaerfyrddin.

Lleoliad	Troseddau cysylltiedig ag alcohol (2021 – 2023)	Troseddau cysylltiedig ag alcohol (12 mis diwethaf)
Y CLOS MAWR, CAERFYRDDIN	6	5
HEOL Y BRENIN, CAERFYRDDIN	8	6
HEOL AWST, CAERFYRDDIN	24	23
SGWÂR NOTT, CAERFYRDDIN	9	8
HEOL Y FRENHINES, CAERFYRDDIN	5	5
LÔN JACKSON, CAERFYRDDIN	1	1

### Lles diogelwch cysylltiedig ag Alcohol Tref Caerfyrddin

Digwyddiadau lles diogelwch yw'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig â throsedd ond sydd fel arfer yn gofyn am bresenoldeb yr heddlu i atal anaf difrifol neu farwolaeth. Enghreifftiau o'r rhain yw pobl sydd wedi cwmpo neu eu hanafu. Yn aml, mae angen adnoddau ychwanegol ar y mathau hyn o ddigwyddiadau, megis parafeddygon a thimau damweiniau ac achosion brys.

Rhwng Gorffennaf 2022 a Gorffennaf 2023 ymatebodd Heddlu Dyfed-Powys i 528 o ddigwyddiadau lles diogelwch ar draws tref Caerfyrddin. Mae 149 o achosion yn ymwneud ag alcohol neu feddwdod.

Mae'r tabl isod yn dangos bod 10 digwyddiad lles diogelwch yn ymwneud ag alcohol yn Sgwâr Nott rhwng 2021 a 2023. Mae chwech o'r digwyddiadau hyn wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Lleoliad	Lles Diogelwch (2021-2023)	Lles Diogelwch (12 mis diwethaf)
Y CLOS MAWR, CAERFYRDDIN	11	9
HEOL Y BRENIN, CAERFYRDDIN	16	10
HEOL AWST, CAERFYRDDIN	46	27
SGWÂR NOTT, CAERFYRDDIN	10	6
HEOL Y FRENHINES, CAERFYRDDIN	6	4

### Ffactorau o ran Amser

Yn ystod y 12 mis diwethaf roedd cyfanswm o 369 o ddigwyddiadau yn ymwneud ag alcohol rhwng 10pm a 6am ar draws Tref Caerfyrddin. Digwyddodd 7 digwyddiad (2%) yn Sgwâr Nott. Wrth gynnwys strydoedd sy'n gyfagos i Sgwâr Nott (Heol y Frenhines, Heol y Brenin, Y Clos Mawr) roedd 49 o ddigwyddiadau (13%).

Gellir ei rannu ymhellach i ddyddiau'r wythnos ac amseroedd. O ran hwyr nos Wener a nos Sadwrn ac oriau mân y bore canlynol. Mae'r digwyddiadau ar yr oriau prysuraf yn cael eu cofnodi rhwng 2000 awr a 0700 o'r gloch.

### Cyfyngiadau

1. Mae'r ystadegau a ddarperir mewn perthynas â throeddau a digwyddiadau alcohol yn debygol o fod yn amcangyfrifiad rhy isel o wir natur a maint y broblem. Mae'r darlun yn cael ei ddrysu gan y ffaith bod gwahanol ffynonellau gwybodaeth yn awgrymu casgliadau gwahanol. Gall data'r heddlu yn arbennig amcangyfrif yn rhy isel nifer y troeddau treisgar cysylltiedig ag alcohol sy'n digwydd. Amcangyfrifir bod yr Heddlu'n cael gwybod am lai na chwarter y troeddau treisgar sy'n arwain at driniaeth mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.
2. Mae'r holl wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi deillio o chwiliadau yn systemau troedd a digwyddiadau Heddlu Dyfed-Powys. Mae cofnodion a ddefnyddiwyd wrth fesur lefel y digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi'u tynnu lle ychwanegwyd tag neu ystadegyn *modus operandi* sy'n nodi bod alcohol yn ffactor presennol. Mae ymchwil wedi dangos nad yw'r tagiau neu'r ystadegau hyn wedi'u cymhwyso ym mhob achos ac oherwydd y cyfyngiad hwn, mae'n bosibl nad yw'r holl gofnodion perthnasol sy'n ymwneud ag alcohol wedi'u hadolygu.
3. Tasg rhy gymhleth yw rhoi darlun cwbl gywir o ran faint o droeddau a digwyddiadau sydd wedi cael eu cyflawni gan berson o dan ddylanwad alcohol (troeddwr / person dan amheuaeth cysylltiedig ag alcohol) oherwydd cyfran y troeddau lle na chlustnodwyd rhywun dan amheuaeth neu droeddwr neu efallai y bydd oedi cyn rhoi gwybod am droedd, sy'n ei gwneud hi'n anodd gwybod a oedd y troeddwr / person dan amheuaeth dan ddylanwad alcohol adeg y droedd. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl bod y troeddwr(wyr) wedi gadael lleoliad y droedd neu'r digwyddiad cyn i'r heddlu gyrraedd.

4. Y ffordd y cofnodir elfennau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, nid yw bob amser yn bosibl gwahaniaethu rhwng mathau o ddigwyddiadau. Mae llawer o ddigwyddiadau'n cynnwys amrywiaeth eang o ymddygiadau y gellir eu hystyried yn wrthgymdeithasol ac mae siawns sylweddol y gall mwy nag un achwynydd roi gwybod am un digwyddiad ac i fwy nag un asiantaeth. Yn ogystal â hyn, mewn nifer o achosion efallai na fydd y sawl sy'n rhoi gwybod am y drosedd yn gwybod a yw'r tramgwyddwyr o dan ddylanwad alcohol, neu i'r gwrthwyneb gall yr achwynydd gymryd bod y tramgwyddwr o dan ddylanwad, pan nad yw mewn gwirionedd.